**Busnes Cymdeithasol Cymru**

# Mapio'r Sector Busnesau Cymdeithasol yng Nghymru / Cyfrifiad 2020

Mehefin 2021

## Wavehill: ymchwil cymdeithasol ac economaidd

- **Swyddfa Cymru:** 21 Sgwâr Alban, Aberaeron, Ceredigion, SA46 0DB (swyddfa gofrestredig)
- **Swyddfa Gorllewin Lloegr:** 2–4 Park Street, Bristol, BS1 5HS
- **Swyddfa Gogledd Lloegr:** Milburn House, Dean Street, Newcastle, NE1 1LF
- **Swyddfa Llundain:** 52 Cecile Park, Crouch End, London, N8 9AS

## Manylion cyswllt:

**Ffôn:** 01545 571711
**E-bost:** wavehill@wavehill.com
**Twitter:** @wavehilltweets

## Mwy o wybodaeth:

www.wavehill.com
https://twitter.com/wavehilltweets



© Wavehill: ymchwil cymdeithasol ac economaidd.

Mae'r adroddiad hwn yn destun hawlfraint. Dylid cydnabod awduron yr adroddiad (Wavehill: ymchwil cymdeithasol ac economaidd) mewn unrhyw gyfeiriad a wneir at ei gynnwys.



## Awduron yr adroddiad:

Ioan Teifi
Oliver Allies

## Cyswllt y cleient:

Joelle Campbell
Cynghorydd Datblygu'r Farchnad, Busnes Cymdeithasol Cymru
Canolfan Cydweithredol Cymru



**Busnes Cymdeithasol Cymru**
**Social Business Wales**

/busnescymru.llyw.cymru/busnescymdeithasol
/businesswales.gov.wales/socialbusinesswales

Wales Co-operative Centre
Canolfan Cydweithredol Cymru

Busnes Cymru | Business Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
European Regional Development Fund

# Cydnabyddiaethau

Hoffem ddiolch i'r unigolion niferus a roddodd o'u hamser i helpu â'r gwerthusiad. Chwaraeodd sawl sefydliad rôl hanfodol yn yr astudiaeth hon drwy roi gwybodaeth i'r Tîm Ymchwil am fusnesau cymdeithasol i'n helpu i greu darlun o'r sector busnes cymdeithasol yng Nghymru. Hoffem ddiolch hefyd i'r busnesau cymdeithasol eu hunain, gan na fyddai'r gwerthusiad hwn yn bosibl heb eu holl gyfraniadau.

# Cynnwys

| | | |
|---|---|---|
| **01** | **Cyflwyniad** | **7** |
| | 1.1 Diffiniad | 8 |
| **02** | **Methodoleg a chyd-destun** | **9** |
| | 2.1 Casglu data a dilysiad y Tîm Ymchwil | 10 |
| | 2.2 Arolwg | 11 |
| | 2.3 Dadansoddiad a chyfyngiadau | 16 |
| | 2.4 Cyd-destun polisi | 18 |
| **03** | **Cyfansoddiad y sector** | **20** |
| | 3.1 Cwmpas daearyddol a busnesau newydd | 22 |
| | 3.2 Math o sefydliad ac arweinyddiaeth | 29 |
| | 3.3 Sectorau gweithredol | 31 |
| | 3.4 Maint busnesau | 32 |
| **04** | **Gwerth ac effeithiau cymdeithasol** | **37** |
| | 4.1 Amcanion cymdeithasol | 39 |
| | 4.2 Cyrchfannau elw | 42 |
| | 4.3 Arferion busnes | 43 |
| **05** | **Arferion busnes, masnachu a pherfformiad, a COVID-19** | **46** |
| | 5.1 Twf busnesau | 48 |
| | 5.2 COVID-19 | 49 |
| | 5.3 Patrymau masnachu | 55 |
| | 5.4 Galluoedd busnesau | 58 |
| | 5.5 Cyflawniadau | 61 |
| **06** | **Heriau, anghenion cymorth a llwybrau twf** | **65** |
| | 6.1 Rhwystrau rhag tyfu | 67 |
| | 6.2 Bylchau o ran sgiliau ac anghenion cymorth | 70 |
| **07** | **Crynodeb o'r canfyddiadau** | **74** |
| | 7.1 Cyflwr y sector | 75 |
| | 7.2 Perfformiad masnachu a rhwystrau rhag tyfu | 75 |
| | 7.3 Cyflawni newid cymdeithasol | 76 |

# Tabl o'r tablau

**Tabl 1.1:** Diffiniadau sefydliadau 8
**Tabl 2.1:** Digwyddiadau COVID-19 – olrhain cyfyngiadau ac ymyriadau cymorth yn erbyn yr ymatebion i'r arolwg 14
**Tabl 3.1:** Dosbarthiad busnesau cymdeithasol yn ôl cwintel MALlC 24
**Tabl 3.2:** Dosbarthiad busnesau cymdeithasol yn 2016, 2018 a 2020 28
**Tabl 4.1:** Dadansoddiad o'r samplau cyfatebol: newid mewn cyflogaeth a throsiant o 2016 hyd 2020 48

# Tabl o'r ffigurau

**Ffigur 2.1:** Nifer yr ymatebion i'r arolwg bob mis 16
**Ffigur 3.1:** Dosbarthiad busnesau cymdeithasol ar draws Cymru 22
**Ffigur 3.2:** Canran y busnesau cymdeithasol a'r holl fusnesau ym mhob awdurdod lleol 23
**Ffigur 3.3:** Canran y busnesau sy'n fusnesau cymdeithasol fesul awdurdod lleol – 2018 o gymharu â 2020 (sampl gyffredinol) 24
**Ffigur 3.4:** Dosbarthiad busnesau cymdeithasol ar draws Cymru, ag is-haen o gwintelau MALlC 25
**Ffigur 3.5:** Oedran busnesau adeg yr arolwg – cymhariaeth rhwng 2016, 2018 a 2020 (sampl gyffredinol) 26
**Ffigur 3.6:** Canran yr holl ymatebwyr i'r arolwg a'r busnesau newydd a arolygwyd ym mhob awdurdod lleol 27
**Ffigur 3.7:** Mathau o fusnesau cymdeithasol a arolygwyd yn 2016, 2018 a 2020 (sampl gyffredinol) 29
**Ffigur 3.8:** Statws cyfreithiol busnesau cymdeithasol a arolygwyd yn 2016, 2018 a 2020 (sampl gyffredinol) 30
**Ffigur 3.9:** Canran uwch dimau arweinyddiaeth busnesau a'r cyflogeion uchaf sy'n disgyn o fewn grwpiau demograffig gwahanol 31
**Ffigur 3.10:** Sectorau gweithredol busnesau cymdeithasol a arolygwyd yn 2018 a 2020 (sampl gyffredinol) 32
**Ffigur 3.11:** Bandiau cyflogaeth yn y sector busnes cymdeithasol yng Nghymru o gymharu â phob busnes (2020)
**Ffigur 3.12:** Bandiau cyflogaeth busnesau cymdeithasol yn 2016, 2018 a 2020 (sampl gyffredinol) 34
**Ffigur 3.13:** Bandiau trosiant yn y sector busnes cymdeithasol yng Nghymru (2020) o gymharu â mentrau cymdeithasol ledled y DU (2019) 34
**Ffigur 3.14:** Canran y busnesau, cyflogaeth a throsiant ym mhob sector gweithredol 36
**Ffigur 4.1:** Prif amcanion cymdeithasol neu amgylcheddol (fel y'i nodwyd gan sefydliadau) – cymariaethau rhwng 2016, 2018 a 2020 39
**Ffigur 4.2:** Prif amcanion cymdeithasol neu amgylcheddol (fel y'i nodwyd gan sefydliadau) – cymhariaeth rhwng 2018 a 202 40
**Ffigur 4.3:** Beth ydych chi'n ei wneud ag unrhyw warged/elw rydych chi'n ei wneud? Cymariaethau rhwng 2016, 2018 a 2020 43
**Ffigur 4.4:** Unigolion a gyflogwyd dros y 12 mis diwethaf – cymariaethau rhwng 2016, 2018 a 2020 44
**Ffigur 4.5:** Nifer y gwirfoddolwyr yn 2014, 2016 a 2018 (sampl gyfatebol) 44
**Ffigur 4.6:** Gwasanaethau busnes sy'n cael eu cynnig yn Gymraeg a Saesneg 45
**Ffigur 5.1:** Canran y busnesau cymdeithasol a grybwyllodd eu bod wedi atal masnachu, yn ôl sector 49

**Ffigur 5.2:** Canran y busnesau cymdeithasol yng Nghymru a grybwyllodd ostyngiad mewn trosiant o gymharu â busnesau yn y DU 50
**Ffigur 5.3:** Effaith COVID-19 ar fusnesau cymdeithasol 51
**Ffigur 5.4:** Camau a gymerwyd gan fusnesau cymdeithasol er mwyn ymateb i'r pandemig 52
**Ffigur 5.5:** Bygythiad gan COVID-19 i hyfywedd ariannol busnesau dros gyfnod o 3 mis, 6 mis a 12 mis 53
**Ffigur 5.6:** Cyfran y busnesau sy'n crybwyll bygythiad mawr neu gritigol i'w hyfywedd ariannol o gymharu â'r busnesau sy'n crybwyll risg i'w cronfeydd wrth gefn 54
**Ffigur 5.7:** Disgwyliadau o ran twf 54
**Ffigur 5.8:** Canran yr incwm a gynhyrchwyd drwy weithgareddau masnachu yn 2014, 2016 a 2018 (sampl gyffredinol) 55
**Ffigur 5.9:** Ffynonellau incwm yn 2016, 2018 a 2020 (sampl gyffredinol) 56
**Ffigur 5.10:** Ffynonellau incwm yn 2016, 2018 a 2020 (sampl gyfatebol) 57
**Ffigur 5.11:** Marchnadoedd cyfredol a dymunol 57
**Ffigur 5.12:** Nifer yr awdurdodau lleol y gweithredir ynddynt – cymhariaeth rhwng 2016, 2018 a 2020 (sampl gyffredinol) 58
**Ffigur 5.13:** Sgorau cyfartalog cymedrig ar gyfer galluoedd busnesau ar raddfa o 1 i 5 (lle mae 1 yn wael iawn a 5 yn gryf iawn) – cymariaethau rhwng 2016, 2018 a 2020 59
**Ffigur 5.14:** Sgorau cyfartalog cymedrig ar gyfer galluoedd busnesau a'r % sy'n rhoi sgôr o 4 neu 5 iddyn nhw'u hunain ar raddfa o 1 i 5 (lle mae 1 yn wael iawn a 5 yn gryf iawn) 60
**Ffigur 5.15:** Wrth feddwl am y 12 mis diwethaf, a yw eich sefydlu wedi [...]? Cymhariaeth rhwng 2016, 2018 a 2020 61
**Ffigur 5.16:** Dulliau o ddenu cwsmeriaid neu gleientiaid newydd 62
**Ffigur 5.17:** Diben arfaethedig cyllid 63
**Ffigur 5.18:** Tendro ar gyfer gwaith sector cyhoeddus 64
**Ffigur 6.1:** Rhwystrau hunangofnodedig rhag cynaliadwyedd neu dwf busnesau cymdeithasol 62 68
**Ffigur 6.2:** Rhesymau dros ddewis manteisio ar gyllid fel rhwystr – 2018 o gymharu â 2020 63 69
**Ffigur 6.3:** Cymorth i fynd i'r afael â rhwystrau a achoswyd gan y pandemig (cwestiwn caeedig) 71
**Ffigur 6.4:** Cymorth i fynd i'r afael â rhwystrau rhag cynaliadwyedd neu dwf (cwestiwn penagored – ymatebion wedi'u codio) 72
**Ffigur 6.5:** Llwybrau twf busnesau – cymharu ymatebion 2018 a 2020 73




# Adran 01
# **Cyflwyniad**

01

»

# 01 Cyflwyniad

Comisiynwyd Wavehill gan Busnes Cymdeithasol Cymru (BCC) i ymgymryd â'r ymarfer mapio eilflwydd diweddaraf o'r sector busnes cymdeithasol yng Nghymru. Mae hyn yn ailadrodd ymarferion tebyg a gynhaliwyd bob dwy flynedd er 2014.

Mae diben deublyg i'r ymarfer hwn: deall maint a graddfa'r sector, a chynnal archwiliad iechyd o'r sector (gan gynnwys amlygu rhai o'r heriau a'r cyfleoedd a wynebwyd). Yn gysylltiedig â'r diwethaf, mae'r ymarfer hefyd yn gyfle i ddeall sut mae'r pandemig COVID 19 wedi effeithio ar y sector.

## 1.1 Diffiniad

Term ymbarél yw busnes cymdeithasol sy'n disgrifio sefydliadau sy'n gweithredu yn yr economi gymdeithasol, a all gynnwys mentrau cymdeithasol, cwmnïau cydweithredol, cwmnïau cydfuddiannol a busnesau sy'n eiddo i weithwyr. Mae disgrifiad manwl o ystyr bob un o'r termau hyn i'w weld yn Nhabl 1.1 isod.

**Tabl 1.1: Diffiniadau sefydliadau**

| Math o Sefydliad | Disgrifiad |
|---|---|
| **Cwmni Cydfuddiannol/ Cydweithredol** | Mae cwmni cydfuddiannol/cydweithredol yn sefydliad sy'n eiddo i'w aelodau presennol ac aelodau'r dyfodol, ac sy'n cael ei redeg er eu lles nhw. |
| **Menter Gymdeithasol** | Mae menter gymdeithasol yn fusnes sydd ag amcanion cymdeithasol, yn bennaf, ac y caiff ei wargedion eu hailfuddsoddi'n bennaf at y diben hwnnw yn y busnes neu'r gymuned, yn hytrach na chael ei ysgogi gan yr angen i wneud yr elw mwyaf posibl i gyfranddalwyr a pherchnogion.<br><br>**Mae ganddi dair prif nodwedd:**<br>• Mae ganddi ddiben cymdeithasol<br>• Mae'n gweithredu gan ddefnyddio model busnes masnachol<br>• Mae ganddi ffurf gyfreithiol sy'n briodol i statws 'nid-er-elw personol' a pherchenogaeth gymdeithasol. |
| **Busnesau dan berchnogaeth gweithwyr** | Mae'r Gymdeithas Perchnogaeth Gweithwyr yn disgrifio busnesau sydd dan berchnogaeth gweithwyr, fel busnesau y mae gweithwyr yn berchen yn llwyr arnynt neu'n berchen arnynt i raddau helaeth.<br><br>**Gall perchenogaeth gweithwyr fod ar un o dair ffurf:**<br>• Perchenogaeth gweithwyr uniongyrchol – gan ddefnyddio un neu fwy o gynlluniau cyfranddaliadau sy'n rhoi manteision treth, bydd gweithwyr yn cael eu cofrestru fel cyfranddalwyr unigol sy'n berchen ar fwyafrif y cyfranddaliadau yn eu busnes<br>• Perchenogaeth gweithwyr anuniongyrchol – mae cyfranddaliadau'n cael eu cadw ar y cyd ar ran cyflogeion, drwy ymddiriedolaeth cyflogeion fel arfer<br>• Cyfuniad o berchenogaeth uniongyrchol ac anuniongyrchol – cyfuniad o berchenogaeth unigol a chydberchnogaeth. |



# Adran 02
# **Methodoleg a chyd-destun**

02

»

# 02 Methodoleg a chyd-destun

Roedd yr astudiaeth yn dilyn dull lled debyg i'r un a fabwysiadwyd mewn ymarferion blaenorol, a gellir ei chrynhoi mewn tri phecyn gwaith: casglu data, gwaith arolwg a dadansoddi. Yn ogystal, gwnaed rhai addasiadau i'r dull i gydnabod y cyd-destun gwahanol a achoswyd gan y pandemig COVID-19. Mae'r rhain wedi'u hamlinellu isod.

## 2.1 Casglu data a dilysiad y Tîm Ymchwil

Roedd y cam cyntaf yn cynnwys coladu a dad-ddyblygu rhestrau o fusnesau cymdeithasol yng Nghymru a oedd yn cael eu cadw gan bartneriaid rhanddeiliaid a chofrestrau cyhoeddus amrywiol. Mae hyn yn dilyn yr un dull a ddefnyddiwyd mewn ymarferion blaenorol.

Roedd y sefydliadau a oedd yn rhannu cysylltiadau a'r rhestrau a adolygwyd yn lled gyson â'r rhai mewn ymarferion blaenorol. Amlygwyd y rhan fwyaf o'r 'cysylltiadau newydd' (h.y. na amlygwyd mewn ymarferion blaenorol) ar y gofrestr Cwmnïau Buddiannau Cymunedol (CIC) a rhestr cleientiaid gweithredol Busnes Cymdeithasol Cymru (BCC). Croesgyfeiriwyd cyfanswm o 10 o restrau yn erbyn y 2,022 o fusnesau a amlygwyd yn 2018, gan greu 2,929 o gysylltiadau unigryw.

Yn yr un modd ag ymarferion blaenorol, gwnaed ceisiadau i bob awdurdod lleol a chyngor gwirfoddol yng Nghymru am unrhyw restrau a allai fod ganddynt. Gwnaeth sawl awdurdod lleol a oedd wedi rhannu eu cysylltiadau yn y gorffennol yr un peth eto. Yn ogystal, am y tro cyntaf erioed, cafwyd rhestr o 500 o gysylltiadau gan Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg (GVS), yr oedd 468 ohonynt yn gysylltiadau newydd. Ar ôl ei harchwilio, roedd rhestr GVS yn cynnwys grwpiau cymunedol bach, yn bennaf, fel y Sgowtiaid a'r Corfflu Awyr, na ellid eu disgrifio'n endidau masnachu dilys. Ar ôl trafod â BCC, penderfynwyd y dylid hepgor 281 o'r busnesau hyn o'r ymarfer, ac y byddem yn cysylltu â'r sefydliadau a oedd yn weddill (sef clybiau chwaraeon mwy, yn nodweddiadol, ynghyd â sefydliadau'r celfyddydau a sefydliadau elusennol). Gadawodd hyn 2,648 o fusnesau ar restr gysylltiadau'r arolwg.

Mae'n bwysig nodi y byddai'r 174 o gysylltiadau newydd a gafwyd gan GVS ac a gadwyd ar y rhestr wedi effeithio ar ddosbarthiad daearyddol y busnesau cymdeithasol a gyflwynir yn yr adroddiad hwn. Byddai cael rhestrau gan y 19 Cyngor Gwirfoddol Sirol (CVC) arall yng Nghymru wedi, yn ôl pob tebyg, arwain at amlygu llawer mwy o sefydliadau o'r math hwn. Felly, cydnabyddir bod graddfa'r sector a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yn debygol o fod yn amcangyfrif rhy isel. Ar ben hynny, nodwn fod y mater hwn yn amlygu'r angen i fod â pharamedrau mwy eglur, o bosibl, o ran yr hyn y dylid ac na ddylid ei ystyried yn fusnes cymdeithasol – yn bennaf o ran graddfa'r gweithrediad.

Er mai prif ddiben y rhestr gysylltiadau oedd creu awgrymiadau ar gyfer ymatebion i'r arolwg, rhoddodd gyfle pellach i'r ymchwilwyr ddilysu statws y busnesau hyn. Yn ystod galwadau'r Tîm Ymchwil, amlygwyd bod 161 o fusnesau pellach (chwech y cant) wedi rhoi'r gorau i fasnachu, a bod 178 ohonynt (saith y cant) naill ai'n ddyblygiadau neu ddim yn ystyried eu hunain yn fusnesau cymdeithasol. Arweiniodd hyn at restr derfynol o 2,309 o fusnesau cymdeithasol ar gyfer ymarfer yr arolwg.

Mae'r dull a ddisgrifiwyd hyd yn hyn yn gyson â'r dull a ddefnyddiwyd mewn ymarferion mapio blaenorol; fodd bynnag, roedd un gwahaniaeth sylweddol. Cyflwynwyd cam pellach yn y broses ddilysu, o ystyried effaith bosibl y pandemig ar fusnesau'n cau. Er y cadarnhawyd bod 161 o fusnesau wedi rhoi'r gorau i fasnachu, a gadarnhawyd ar Dŷ'r Cwmnïau, mae'n bosibl bod hyn yn bychanu'r nifer wirioneddol, o ystyried yr oedi rhwng busnesau'n cau a hynny'n cael ei ddangos ar gofnodion Tŷ'r Cwmnïau. Felly, lle nad oedd ymchwilwyr yn gallu cael gafael ar gwmnïau ar ôl ceisio cysylltu â nhw o leiaf deirgwaith, a lle nad oedd modd iddynt gadarnhau bod y busnesau'n weithredol drwy wirio ar-lein, amlygwyd y busnesau hyn yn 'anweithredol o bosibl'. Adolygodd Cynghorwyr Busnes a Chynghorwyr Datblygu'r Farchnad BCC y rhestr hon fel dilysiad terfynol hefyd, a arweiniodd at amlygu cyfanswm o 187 o fusnesau a oedd yn anweithredol o bosibl.

## 2.2 Arolwg

Roedd y prif newid arall i'r dull yn 2020 yn ymwneud â'r arolwg ei hun. Gwnaed sawl newid i'r cwestiynau a ofynnwyd i'r ymatebwyr, gan gynnwys adran a oedd yn canolbwyntio'n benodol ar effaith COVID-19 a sut roedd y busnes wedi addasu er mwyn ymateb iddo. Ar yr un pryd, cadwyd y rhan fwyaf o'r cwestiynau o'r ymarfer yn 2018, sy'n ein galluogi i ddilyn tueddiadau dros amser.

Yn yr un modd ag ymarferion blaenorol, rhannwyd yr arolwg yn ddwy ran: roedd Rhan 1 yn arolwg byrrach, 10-15 munud a oedd yn cynnwys gwybodaeth ffeithiol am y busnesau (e.e. sector, cyflogaeth, daearyddiaeth, trosiant, statws cyfreithiol ac ati), tra'r oedd Rhan 2 yn arolwg hwy â ffocws mwy ansoddol (30-40 munud ar gyfartaledd), a oedd yn cynnwys cwestiynau am arferion y gweithlu, COVID-19, gwerth cymdeithasol, perfformiad, cyflawniadau, a heriau.

Llenwodd cyfanswm o 535 o fusnesau Rhan 1 yr arolwg, er i 28 o'r rhai nodi nad oeddent yn ystyried eu hunain yn fusnesau cymdeithasol ar ôl eu holi ymhellach, a oedd yn gadael 507 o ymatebion dilys (cyfradd ymateb o 22 y cant). Yn ogystal, cwblhaodd 363 o fusnesau Ran 2, a oedd yn cynrychioli cyfradd ymateb o 16 y cant.

Gwahoddwyd busnesau i lenwi Rhan 1 ar-lein hefyd. Roedd hyn yn wahanol i'r dull a ddefnyddiwyd yn 2018, pan gasglwyd yr holl ymatebion drwy gyfweliadau ffôn gan y Tîm Ymchwil. Gwnaed y penderfyniad er mwyn ymateb i'r pandemig a'r ffaith bod nifer gynyddol o bobl a busnesau'n gweithio gartref. Roedd y dull hwn yn effeithiol, a llenwodd 85 (17 y cant) o'r ymatebwyr Ran 1 ar-lein, tra yr ymgysylltwyd â'r lleill drwy'r Tîm Ymchwil. Casglwyd yr holl ymatebion i Ran 2 drwy gyfweliadau ffôn.

### 2.2.1 Dosbarthu'r arolwg yn ystod COVID-19

Mae cyd-destun y pandemig COVID-19 yn bwysig iawn i'r ymchwil hon. Mae'r astudiaeth hon yn ymwneud yn rhannol â chynnal archwiliad iechyd o'r sector, a bydd y pandemig wedi cael effaith sylweddol ar hynny. Yn unol â hynny, yn Nhabl 2.1 (isod), rydym yn amlinellu'r prif ddatblygiadau yn ystod y pandemig, sy'n rhoi syniad o sut y gallai fod wedi effeithio ar deimlad busnesau ar adegau amrywiol yn ystod 2020-2021. Mae hyn wedi'i groesgyfeirio â dosbarthu'r arolwg, a ddigwyddodd rhwng mis Tachwedd 2020 a chanol mis Ebrill 2021.

Ataliodd y cyfyngiadau a osodwyd yn ystod y cyfnodau clo cenedlaethol a lleol amrywiol drwy gydol 2020 ac yn gynnar yn 2021 weithrediadau llawer o fusnesau'n gyfan gwbl, ac effeithio'n sylweddol ar rai eraill, tra'r oedd nifer o'r cyfyngiadau ar waith o hyd rhwng y cyfnodau clo.

Fel mae Tabl 2.1 yn dangos, roedd Cymru mewn cyfnod clo llawn rhwng 23 Mawrth a 29 Mai 2020, a gorchmynnwyd pobl i aros gartref, gyda gweithgareddau dianghenraid wedi'u gwahardd, i raddau helaeth. Diwygiwyd hyn o fis Mai, yn gyntaf drwy symud tuag at reoliadau 'aros yn lleol'. Fodd bynnag, ni chaniatawyd i bobl symud yn rhwydd ar draws Cymru nes i'r rheoliadau 'aros yn lleol' gael eu codi ddechrau mis Gorffennaf. Ailagorwyd rhannau eraill o'r economi'n raddol yn ystod y mis hwnnw - gan ddechrau â llety gwyliau hunangynhaliol, drwodd i ardaloedd awyr agored yn y sector lletygarwch. Hyd yn oed bryd hynny, roedd cyfyngiadau heriol o ran cadw pellter cymdeithasol a chymysgu â phobl dan do, yr oedd rhaid i fusnesau ddelio â nhw.

Gwelwyd cynnydd mewn achosion COVID-19 yng Nghymru a'r DU ym mis Medi, a chyflwynwyd y cysyniad o gyfnodau clo lleol er mwyn ceisio cyfyngu ar ledaenu'r haint ac atal cyfnodau clo ehangach. Caerffili oedd yr ardal gyntaf i wynebu hyn yng Nghymru, a chyflwynwyd cyfnod clo ar 8 Medi (pan nad oedd pobl yn cael mynd i mewn nac allan o'r ardal). Dilynodd cyfnodau clo pellach yn Rhondda Cynon Taf (RhCT) wythnos yn ddiweddarach, ynghyd â sawl awdurdod lleol a thref arall erbyn diwedd y mis. Erbyn 1 Hydref, roedd cyfnodau clo lleol wedi'u gosod mewn 15 o awdurdodau lleol ynghyd â Llanelli, a oedd yn cynnwys mwyafrif helaeth y boblogaeth yng Nghymru.

Wrth i'r achosion barhau i gynyddu, aeth Cymru dan 'gyfnod atal byr' am 17 diwrnod ar 23 Hydref, pan gymhwyswyd rheolau tebyg i'r rhai yn ystod y cyfnod clo cenedlaethol cyntaf, er i ysgolion a lleoliadau gofal plant aros ar agor i ddisgyblion mewn rhai grwpiau oedran. Codwyd y cyfyngiadau hyn ar 9 Tachwedd a chymhwyswyd mesurau cenedlaethol newydd, a oedd yn caniatáu ailagor pob adeilad. Ar yr un diwrnod, lansiodd Wavehill ei arolwg, a chafwyd 82 o ymatebion (15 y cant o'r cyfanswm) y mis hwnnw.

Ym mis Rhagfyr, yn ystod y cyfnod yn arwain at y Nadolig, gwelwyd nifer yr achosion yn cynyddu'n gyflym, a arweiniodd at gyfyngiadau pellach ar ddechrau'r mis, gyda thafarnau, bariau, bwytai a chaffis yn cael eu gorchymyn i gau erbyn 6pm. Ar 19 Rhagfyr, aeth Cymru i gyfnod clo cenedlaethol arall. Cafwyd 129 o ymatebion pellach (24 y cant) i'r arolwg y mis hwnnw.

Dechreuodd nifer yr achosion ostwng ym mis Ionawr, er i'r cyfnod clo parhau ar waith drwy'r mis. Yn ystod y cyfnod hwn, cafwyd 149 o ymatebion pellach i'r arolwg (28 y cant). Parhaodd y cyfyngiadau drwy fis Chwefror, pan gafwyd 60 (11 y cant) o ymatebion pellach.

Cafwyd gweddill yr ymatebion i'r arolwg (21 y cant) rhwng mis Mawrth a chanol mis Ebrill (pan roedd yr arolwg wedi cau). Llaciwyd y cyfyngiadau'n raddol yn ystod y cyfnod hwn, a chodwyd y cyfyngiadau 'aros gartref' ar 13 Mawrth, a'r cyfyngiadau 'aros yn lleol' ar 27 Mawrth.

Mae hefyd yn bwysig nodi y bu pecyn cymorth digynsail i helpu busnesau ar hyd y pandemig. Yn gyffredinol, y busnesau hynny yr effeithiwyd arnynt fwyaf a gafodd y cymorth mwyaf hael. Daeth y cymorth hwn gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, ynghyd â rhanddeiliaid eraill.




**Mae prif agweddau'r cymorth hwn fel a ganlyn:**

- **Y Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws ('Y Cynllun Ffyrlo')** – grant sy'n cwmpasu 80 y cant o gostau cyflogau misol gweithwyr lle na all busnesau gadw eu gweithlu gan fod COVID-19 wedi effeithio ar eu gweithrediadau.
- **Cynllun Benthyciadau Tarfu ar Fusnes yn sgil y Coronafeirws** – roedd busnesau bach a chanolig yn gallu gwneud cais am fenthyciad, gorddrafft, cyllid anfonebu a chyllid asedau o hyd at £5 miliwn am hyd at chwe blynedd, gyda'r llywodraeth yn rhoi gwarant o 80 y cant i fenthycwyr ar bob benthyciad.
- **Benthyciad Adfer y Coronafeirws** – rhwng £2,000 a £50,000, gyda'r llywodraeth yn gwarantu 100 y cant o'r benthyciad heb unrhyw ffioedd, llog nac ad-daliadau am y 12 mis cyntaf.
- **Cronfa Cadernid Economaidd** – tair rownd o fenthyciadau a chyllid grant i gefnogi busnesau yr oedd cyfyngiadau yn gysylltiedig â'r pandemig wedi effeithio arnynt ac nad oeddent yn gallu gweithredu.
- **Y Gronfa Adferiad Diwylliannol** – darparodd gyllid i gefnogi theatrau, lleoliadau cerddoriaeth, safleoedd treftadaeth, digwyddiadau, amgueddfeydd, llyfrgelloedd, orielau, sinemâu annibynnol, a gweithwyr llawrydd.
- **Cronfa Cadernid y Trydydd Sector** – rhoddodd gymorth ariannol uniongyrchol, gan gynnwys cymysgedd o 75 y cant o gyllid grant a 25 y cant o fenthyciad di-log i sefydliadau'r trydydd sector yr oedd angen cymorth arnynt i ymdopi â'r argyfwng.
- **Rhyddhad Ardrethi Busnes** – gan gynnwys y cynllun rhyddhad ardrethi manwerthu, hamdden a lletygarwch, y cynllun rhyddhad ardrethi busnesau bach, a'r cynllun rhyddhad ardrethi sefydliadau nid-er-elw.
- **Gohirio TAW** – roedd gan fusnesau sydd wedi'u cofrestru ar gyfer TAW, ac a oedd â thaliad TAW yn ddyledus rhwng 20 Mawrth a 30 Mehefin 2020, yr opsiwn i ohirio'r taliad tan 31 Mawrth 2021.
- **Ad-daliad Tâl Salwch Statudol** – roedd cyflogwyr yn gallu adennill Tâl Salwch Statudol a dalwyd ar gyfer absenoldeb salwch oherwydd COVID-19.
- **Amser i Dalu** – hepgor cosbau i fusnesau nad oeddent yn gallu talu eu treth mewn pryd oherwydd y pandemig.


**Tabl 2.1: Digwyddiadau COVID-19 – olrhain cyfyngiadau ac ymyriadau cymorth yn erbyn yr ymatebion i'r arolwg**

| Dyddiad | Digwyddiad | Ymatebion i'r Arolwg |
|---|---|---|
| **20 Mawrth 2020** | Cyflwynwyd y Cynllun Cadw Swyddi drwy Gyfnod y Coronafeirws a chaewyd y sector lletygarwch yn orfodol | |
| **23 Mawrth 2020** | UCyfnod clo'r DU: gorchmynnwyd y cyhoedd i aros gartref a gwaharddwyd llawer o weithgareddau diangen | |
| **30 Mawrth 2020** | Cronfa Cadernid Economaidd | |
| **29 Mai 2020** | Cymru'n symud i reoliadau 'aros yn lleol', a gall dwy aelwyd gyfarfod yn yr awyr agored, er dylai pobl aros yn lleol | |
| **22 Mehefin 2020** | Pob busnes manwerthu dianghenraid yn ailagor | |
| **06 Gorffennaf 2020** | Gofyniad i 'aros yn lleol' yn cael ei godi | |
| **11 Gorffennaf 2020** | Rhai llety gwyliau hunangynhwysol yn gallu ailagor | |
| **13 Gorffennaf 2020** | Nifer o wasanaethau/busnesau eraill yn gallu ailagor (gan gynnwys lletygarwch yn yr awyr agored) | |
| **25 Gorffennaf 2020** | Llety i dwristiaid â chyfleusterau sy'n cael eu rhannu yn gallu ailagor | |
| **27 Gorffennaf 2020** | Sinemâu ac amgueddfeydd yn gallu ailagor, a gall pobl fynd i edrych ar dai | |
| **03 Awst 2020** | Y sector lletygarwch yn gallu ailagor dan do | |
| **10 Awst 2020** | Pyllau nofio, sbaon, campfeydd, canolfannau hamdden ac ati yn gallu ailagor | |
| **08 Medi 2020** | Cyfyngiadau lleol yng Nghaerffili: ni all pobl fynd i mewn nac allan o'r ardal heb esgus rhesymol | |
| **17 Medi 2020** | Cyfyngiadau lleol yn RhCT: yr un rheolau ag yng Nghaerffili, a rhaid i bob eiddo trwyddedig gau am 11pm | |
| **21 Medi 2020** | Cyflwynwyd cyfyngiadau lleol ym Mlaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful a Chasnewydd | |
| **24 Medi 2020** | Ledled Cymru, gorchmynnwyd busnesau lletygarwch (tafarndai, caffis, bwytai a chasinos) i gau am 10pm | |
| **26 Medi 2020** | Cyflwynwyd cyfyngiadau lleol yn Llanelli | |
| **27 Medi 2020** | Cyflwynwyd cyfyngiadau lleol yng Nghaerdydd ac Abertawe | |
| **28 Medi 2020** | Cyflwynwyd cyfyngiadau lleol yng Nghastell-nedd Port Talbot, Torfaen a Bro Morgannwg | |
| **01 Hydref 2020** | Cyflwynwyd cyfyngiadau lleol yn Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Conwy a Wrecsam; cadarnhawyd bron i 8,000 o achosion newydd yn ystod y mis blaenorol | |

| Dyddiad | Digwyddiad | Ymatebion i'r Arolwg |
|---|---|---|
| **09 Hydref 2020** | Cyflwynwyd cyfyngiadau lleol ym Mangor | |
| **20 Hydref 2020** | Cyfnod 2 y Gronfa Cadernid Economaidd | |
| **23 Hydref 2020** | 'Cyfnod atal byr' o 17 diwrnod ledled Cymru, lle'r oedd rhaid i bobl aros gartref a gorchmynnwyd llawer o fusnesau a lleoliadau i gau | |
| **01 Tachwedd 2020** | Cadarnhawyd bron i 30,000 o achosion newydd yn ystod y mis blaenorol | Lansiwyd yr arolwg – cafwyd 82 o ymatebion ym mis Tachwedd |
| **09 Tachwedd 2020** | Pob busnes sydd ar gau yn gallu ailagor dan fesurau cenedlaethol newydd | |
| **01 Rhagfyr 2020** | Cadarnhawyd bron i 30,000 o achosion newydd yn ystod y mis blaenorol | 129 o ymatebion ym mis Rhagfyr |
| **04 Rhagfyr 2020** | Rhaid i dafarndai, bariau, bwytai a chaffis gau erbyn 6pm ac ni chânt weini alcohol; gorchmynnwyd atyniadau adloniant ac atyniadau dan do i gau hefyd; mae trydydd cyfnod o'r Gronfa Cadernid Economaidd yn agor i gefnogi'r busnesau yr effeithiwyd arnynt, gan gynnwys cronfa benodol ar gyfer lletygarwch | |
| **08 Rhagfyr 2020** | Y brechlyn yn dechrau cael ei gyflwyno yng Nghymru | |
| **14 Rhagfyr 2020** | Rhaid i bob atyniad awyr agored yng Nghymru gau, gan gynnwys ffeiriau | |
| **19 Rhagfyr 2020** | Cyfnod clo cenedlaethol / symud i lefel 4 ar y system rybuddio: pob busnes manwerthu dianghenraid, gwasanaethau â chysylltiad agos, a chanolfannau hamdden yn ffitrwydd yn cau | |
| **01 Ionawr 2021** | Cadarnhawyd dros 70,000 o achosion newydd yn ystod y mis blaenorol | 149 o ymatebion ym mis Ionawr |
| **01 Chwefror 2021** | Cadarnhawyd bron i 37,000 o achosion newydd yn ystod y mis blaenorol | 60 o ymatebion ym mis Chwefror |
| **12 Chwefror 2021** | Cyflawnwyd carreg filltir gyntaf y rhaglen frechu, sef cynnig brechlyn i bawb yn y pedwar grŵp blaenoriaeth cyntaf | |
| **01 Mawrth 2021** | Cadarnhawyd bron i 10,000 o achosion newydd yn ystod y mis blaenorol | 65 o ymatebion ym mis Mawrth |
| **13 Mawrth 2021** | Cyfyngiadau 'aros gartref' yn cael eu disodli gan reol 'aros yn lleol' yng Nghymru | |
| **27 Mawrth 2021** | Cyfyngiadau 'aros yn lleol' yn cael eu codi, a llety gwyliau hunangynhwysol yn ailagor | |
| **01 Ebrill 2021** | Cadarnhawyd dros 5,000 o achosion newydd yn ystod y mis blaenorol | 45 o ymatebion ym mis Ebrill |
| **06 Ebrill 2021** | Cyflawnwyd ail garreg filltir y rhaglen frechu, sef cynnig brechlyn i bawb yn y naw grŵp blaenoriaeth cyntaf | |

I gloi, cafwyd y rhan fwyaf o'r ymatebion (68 y cant) erbyn diwedd mis Ionawr (gweler Ffigur 2.1 isod). Roedd cyfyngiadau difrifol ar waith pan gafwyd y rhan fwyaf o'r ymatebion rhwng canol mis Rhagfyr 2020 a mis Mawrth 2021, tra'r oedd newidiadau o ran cyflwr y pandemig (h.y. nifer yr achosion, marwolaethau a'r brechiadau) a'r cymorth a oedd ar gael gan y llywodraethau unigol yn ystod y cyfnod hwn. Bydd pob un o'r ffactorau hyn wedi effeithio ar deimladau, ac felly'r ymatebion i'r arolwg hwn.

**Ffigur 2.1: Nifer yr ymatebion i'r arolwg bob mis**




## 2.3 Dadansoddiad a chyfyngiadau

Dadansoddwyd holl ddata'r arolwg, a chaiff y prif ganfyddiadau eu cyflwyno yng ngweddill yr adroddiad hwn.

Lle bynnag y bod modd, mae'r adroddiad yn cyflwyno dadansoddiad o'r tueddiadau i ddangos sut mae'r sector wedi newid ers i'r ymarferion hyn gael eu cynnal. Caiff dau ddull eu mabwysiadu wrth gynnal y dadansoddiad hwn: cymharu'r samplau cyffredinol yn 2020 ag ymarferion blaenorol, a dull panel drwy gymharu sampl gyfatebol (h.y. yr un busnesau yn union a gwblhaodd yr arolwg yn 2016, 2018 a 2020). Defnyddiodd y dull panel 136 o fusnesau a oedd wedi cwblhau'r arolwg bob blwyddyn. Yn ogystal, cynhaliwyd dadansoddiad ar wahân i fusnesau a ymatebodd yn 2018 a 2020 yn unig, er mwyn ymestyn y sampl gyfatebol i'r 220 o fusnesau a oedd wedi cwblhau'r arolwg yn y ddau ymarfer diwethaf, ond nid yn 2016.

Y cafeat amlwg â'r dadansoddiad o dueddiadau yw y bu'r cyd-destun yn 2020 yn hollol wahanol. Mae gosod cyfyngiadau yn ystod y pandemig wedi cael effaith glir ar y sampl a gafwyd o'r gwaith maes, o ystyried yr effaith anghymesur ar wahanol sectorau o'r economi; er enghraifft, roedd y sector lletygarwch naill ai ar gau neu'n wynebu cyfyngiadau difrifol drwy'r cyfnod cyfan, ac roedd manwerthu dianghenraid a gweithgareddau eraill sydd wedi'u cynrychioli'n dda yn y sector busnes cymdeithasol (e.e. grwpiau cymunedau, gweithgareddau ieuenctid, addysg ac ati) hefyd yn wynebu cyfyngiadau trwm. O ganlyniad, mae'r sectorau a oedd yn fwy anweithredol yn ystod y pandemig oherwydd y cyfyngiadau hyn, ac a allai fod â mwy o amser rhydd (e.e. y celfyddydau, hamdden, grwpiau cymunedol ac ati) wedi cynrychioli cyfran uwch na'r cyfartaledd o'r sampl o

gymharu â blynyddoedd blaenorol, tra yr ymddengys bod sectorau a fu'n fwy gweithredol yn ystod y pandemig (e.e. iechyd a gofal cymdeithasol) wedi'u tangynrychioli. Mae'r effaith ar gyfansoddiad sectoraidd y sampl wedi effeithio ar faint y busnesau a gyrhaeddwyd – maint cyfartalog y busnesau yn sampl 2020 yw 13 o weithwyr, o gymharu â 27 yn 2018 a 22 yn 2016. Mae hyn oherwydd bod busnesau mewn sectorau a dangynrychiolwyd (fel iechyd a gofal) a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig (RSLau) yn dueddol o fod yn sefydliadau llawer mwy, tra mae sefydliadau mewn sector a orgynrychiolwyd yn llai.

Roedd y diffyg landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a ymatebodd i'r arolwg yn arbennig o wrthdrawol, o ystyried bod y grŵp bach hwn o sefydliadau'n cyflogi cannoedd o staff a bod pob un ohonynt yn creu miliynau mewn trosiant. Roedd deg o'r landlordiaid cymdeithasol cofrestredig hyn wedi'u cynnwys yn sampl 2018, a dim ond dau o'r sefydliadau hyn y cyfwelwyd â nhw yn 2020. Gellir gweld effaith y mater samplu hwn yn fwyaf enbyd wrth asesu maint y sector, o ystyried y caiff cyfartaleddau arolwg eu defnyddio i gyfrifo'r gwerth sy'n cael ei greu a nifer y gweithwyr yn y sector cyfan. I unioni'r mater hwn, cafwyd data ar weithwyr a throsiant o adroddiadau ariannol wyth o'r landlordiaid cymdeithasol cofrestredig y cyfwelwyd â nhw yn 2018 ond nid yn 2020, ac ychwanegwyd y rhain at y cyfrifiadau er mwyn creu amcangyfrifon mwy cymaradwy a realistig. Er gwaethaf yr ychwanegiad hwn, roedd maint cyfartalog y busnesau ymhell islaw'r lefel a gofnodwyd yn yr ymarfer blaenorol o hyd. Nid oedd llawer o dystiolaeth o'r arolwg i esbonio hyn. Mewn gwirionedd, roedd y dadansoddiad cyfatebol o ddata 2018 a 2020 yn dangos bod busnesau wedi profi twf cymharol fach, tra nad oes unrhyw dystiolaeth o lai o fusnesau'n gweithredu yn y sector. Felly, defnyddiwyd dull amgen drwy gyfrifo nifer y gweithwyr sy'n gweithio yn y sector, sy'n caniatáu cymhariaeth fwy realistig â blynyddoedd blaenorol. Mae hyn wedi'i seilio ar gynnydd go iawn yn y sampl gyfatebol, a chaiff ei esbonio'n fanylach yn adran 3.4.

Yn ogystal, bydd cynnwys y rhestr GVS wedi effeithio ar y sampl a'r amcangyfrifon o ran nifer y busnesau sy'n gweithredu yn y sector. Ar ben hynny, addaswyd y fethodoleg i gyfrif am effaith debygol y pandemig, gan gynnwys ymarfer dilysu mwy dwys gan y Tîm Ymchwil i gadarnhau lle nad oedd busnesau'n masnachu neu eu bod yn 'anweithredol o bosibl'. Gyda'i gilydd, mae pob un o'r ffactorau hyn yn gwneud cymariaethau ag asiantaethau blaenorol yn llai cadarn a dilys. Felly, dylid trin unrhyw gymariaethau tebyg yn fynegol yn unig.

Yn ogystal â'r dadansoddiad o dueddiadau, rhoddwyd cyd-destun i ganlyniadau'r arolwg drwy feincnodi â'r boblogaeth fusnes gyffredinol yng Nghymru ac â'r sector busnes cymdeithasol mewn rhannau eraill o'r DU. Fel rhan o'r broses hon, rydym wedi defnyddio data o'r Gofrestr Fusnes Ryngadrannol (IDBR) a'r arolwg diweddaraf a gynhaliwyd gan Fenter Gymdeithasol y DU (2019), er bod unrhyw gymariaethau dilys wedi'u cyfyngu gan y ffaith y gwnaed hyn cyn y pandemig. Yn olaf, rydym hefyd wedi defnyddio data gan Fenter Gymdeithasol yr Alban, a gyhoeddodd adroddiad 'Cyflwr y Sector' ym mis Awst 2020.

## 2.4 Cyd-destun polisi

Mae datblygu polisi yng Nghymru wedi canolbwyntio'n gynyddol ar y cysyniad o dwf cynhwysol h.y. y cysyniad o sicrhau y caiff twf economaidd ei ddosbarthu'n deg ar draws y gymdeithas a'i fod yn creu cyfleoedd i bawb.[1] Roedd y cysyniad hwn yn flaenllaw ym mhapur strategaeth craidd Llywodraeth Cymru yn arwain at 2021, h.y. 'Ffyniant i Bawb', a'r cynllun gweithredu cysylltiedig, sy'n datgan:

> "Ein rôl fel llywodraeth yw cynnal economi sy'n gwella ein cyfoeth a hefyd ein llesiant drwy dwf cynhwysol. Mae hynny'n golygu sicrhau bod unigolion ac ardaloedd gwahanol o Gymru yn gallu manteisio'n deg ar y budd sy'n deillio o dwf economaidd."[2]

Atgyfnerthwyd hyn gan y Genhadaeth i Gryfhau ac Ailadeiladu'r Economi, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Chwefror 2021.[3] Mae'r genhadaeth yn mynegi'r dymuniad i "adeiladu ar y cynnydd yr oeddem yn ei wneud o ran sicrhau economi fwy cynhwysol" drwy greu 'economi lesiant' sy'n "helpu pawb i wireddu eu potensial [...] lleihau anghydraddoldeb a rhannu cyfoeth a llesiant ledled Cymru". Mae cyflawni 'economi gyfartal' yn cynrychioli un o'r tri chanlyniad, y bydd Llywodraeth Cymru yn eu defnyddio i fynnu a hyrwyddo gwaith teg.

Mae aliniad cryf rhwng yr uchelgais hon a'r model busnes cymdeithasol sy'n cyfuno dymuniad i wneud elw â buddsoddi'r elw hwnnw i greu newid cymdeithasol cadarnhaol. Yn wir, caiff hyn ei gydnabod yn y Genhadaeth i Gryfhau ac Ailadeiladu'r Economi, sydd ag uchelgais benodol i annog mentrau cymdeithasol a busnesau dan berchnogaeth cyflogeion fel rhan o'r economi lesiant:

> "Rydym yn bwriadu helpu i ailadeiladu, cynyddu ac atgyfnerthu'r sector menter gymdeithasol, i sicrhau mai dyna'r model a ffefrir yn naturiol gan entrepreneuriaid sy'n darparu atebion i heriau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol."[4]

[1] https://www.oecd.org/inclusive-growth/
[2] Llywodraeth Cymru, 'Ffyniant i Bawb: cynllun gweithredu economaidd', 2017.
[3] Llywodraeth Cymru, 'Y Genhadaeth i Gryfhau ac Ailadeiladu'r Economi', 2021.
[4] Ibid.

Trwy adeiladu ar hyn, ystyrir bod y cysyniad o economi sylfaenol yn ddull allweddol ar gyfer sbarduno twf cynhwysol. Yr economi sylfaenol yw darparu nwyddau a gwasanaethau sylfaenol y mae pob dinesydd yn dibynnu arnynt, sy'n cwmpasu gwasanaethau gofal ac iechyd, bwyd, tai, ynni, adeiladu, twristiaeth, manwerthu ac ati. Mae'n cynnwys busnesau sydd wedi'u hymgorffori yn eu cymunedau ac mae'n dod yn rhan gynyddol bwysig o ddull datblygu economaidd Llywodraeth Cymru, sy'n cynnwys ffocws ar le a gwneud cymunedau'n gryfach ac yn fwy cydnerth. Mae targedu buddsoddiad yn yr economi sylfaenol wedi'i lunio i greu amodau cyflogaeth da, lleihau'r arian sy'n cael ei ollwng o gymunedau, a mynd i'r afael â chost amgylcheddol cadwyni cyflenwi estynedig.

Mae'r cysyniad yn cael ei gefnogi gan Lywodraeth Cymru drwy ddwy elfen allweddol sy'n berthnasol i'r sector busnes cymdeithasol: yn gyntaf, Cronfa Her yr Economi Sylfaen 'arbrofol' gwerth £4.5m, sy'n cynnwys cyfres o brosiectau i brofi ymyriadau priodol gan y llywodraeth i gefnogi'r economi sylfaenol; ac yn ail, yr hyn a ddisgrifiwyd fel model Preston+, sy'n canolbwyntio ar gaffael i atgyfnerthu'r economi sylfaenol, gan gynnwys drwy fuddsoddi mwy o wariant caffael mewn ardaloedd lleol. Prif bwyslais yr agenda yw targedu cymorth economaidd tuag at fusnesau sydd wedi'u lleoli yn eu cymunedau. Mae'r sector busnes cymdeithasol yn rhan bwysig o'r economi sylfaenol, o ystyried tueddfryd busnesau i ddarparu gwasanaethau cymunedol craidd a'u rôl o ran cyflawni twf cynhwysol.

Ceir pwyslais sylweddol ar yr economi sylfaenol yn y Genhadaeth i Gryfhau ac Ailadeiladu'r Economi. Mae atgyfnerthu'r economi sylfaenol yn cynrychioli un o'r pump 'llusern' yn y Genhadaeth. Mae hyn yn cynnwys bwriad i gynyddu arfer da yn yr economi sylfaenol o'r Gronfa Her, gan ddefnyddio rhwydweithiau sefydledig fel Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus i wneud hynny. Caiff Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus eu hannog i roi rhaglenni caffael perthynol ar waith sy'n gallu lleoleiddio cyfran fwy o gaffael cyhoeddus. Yn ôl y Genhadaeth:

> “Rhoddir sylw penodol i gefnogi mentrau cymdeithasol, sefydliadau dan reolaeth cyflogeion a busnesau bach a chanolig sydd wedi ymwreiddio yn eu cymunedau i ddefnyddio caffael cyhoeddus, gan helpu i gynnal a chreu cyfleoedd lleol ar gyfer swyddi, gan arwain at gymunedau iachach.”[6]

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (DLlCD) hefyd yn cael ei ystyried yn fframwaith ar gyfer datblygu model economaidd newydd sy'n annog twf cynaliadwy ar draws pob rhan o Gymru, ac yn rhoi'r agenda twf cynhwysol wrth wraidd pob penderfyniad polisi pwysig. Mae'r Ddeddf yn creu rhwymedigaeth gyfreithiol i gyrff cyhoeddus wella llesiant cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd yr ardaloedd maent yn eu gwasanaethu. Caiff ei thanategu gan saith nod llesiant ac mae'n creu amgylchedd ffafriol i fusnesau cymdeithasol oherwydd bod cydweddiad naturiol rhwng diben cymdeithasol busnesau yn y sector a diben y

[5] Gwefan Busnes Cymru, 'Economi Sylfaenol', 'Foundational Economy', https://businesswales.gov.wales/foundational-economy
[6] Llywodraeth Cymru, 'Y Genhadaeth i Gryfhau ac Ailadeiladu'r Economi', 2021.




Adran 03

# Cyfansoddiad y sector

# 03 Cyfansoddiad y sector

Mae'r adran hon yn disgrifio cyfansoddiad y sector busnes cymdeithasol yng Nghymru, gan gynnwys y dosbarthiad daearyddol, y mathau o sefydliadau, gweithgarwch sefydlu, y sectorau mae'n gweithredu ynddynt, maint a nodweddion eraill.





## Crynodeb o'r adran

- Amcangyfrifir bod y sector yn cynnwys hyd at 2,309 o fusnesau a hyd at 56,000 o gyflogeion, sy'n creu gwerth o £3.1–3.8 biliwn
- Ceir crynodiad penodol o fusnesau cymdeithasol mewn rhai o'r cymoedd tlotaf yn ne Cymru, ac maent yn fwy tebygol o weithredu mewn ardaloedd difreintiedig
- Mae'r sector yn cynnwys grŵp craidd o fusnesau cymdeithasol sefydledig wedi'u hategu gan grŵp cynyddol o fusnesau newydd
- Mae'n ymddangos y bu cynnydd sylweddol mewn gweithgarwch sefydlu busnesau dros y ddwy flynedd diwethaf, sy'n gysylltiedig â phrosiect Dechrau Newydd Busnes Cymdeithasol Cymru
- Mae gweithgarwch sefydlu wedi'i grynhoi'n benodol yng ngogledd-ddwyrain Cymru – Sir Ddinbych a Wrecsam, ac ardaloedd sy'n dechrau o sylfaen is o weithgarwch busnes cymdeithasol
- Ceir cydbwysedd cadarnhaol o ran rhywedd o fewn arweinyddiaeth busnesau, sy'n cymharu'n ffafriol â'r stoc fusnes gyffredinol a mentrau cymdeithasol ledled y DU
- Fodd bynnag, nid yw cymunedau lleiafrifoedd ethnig a phobl sy'n byw ag anabledd neu gyflwr iechyd hirdymor yn cael eu cynrychioli'n ddigonol o fewn arweinyddiaeth y sector, ac mae entrepreneuriaid ifanc yn brin (islaw cyfartaledd y DU)
- Mae busnesau cymdeithasol yn torri ar draws ystod eang o sectorau gweithredol, ond maent wedi'u seilio'n bennaf yn y celfyddydau a hamdden, canolfannau/grwpiau cymunedol, addysg, ac iechyd a gofal
- Mae rhai o'r sectorau hyn, fel busnesau'r celfyddydau/hamdden a chanolfannau cymunedol, yn cyfrif am gyfran uchel o fusnesau ond cyfran lai o lawer o gyflogaeth a gwerth a grëwyd
- I'r gwrthwyneb, mae iechyd a gofal yn cynrychioli cyfran llawer uwch o gyflogaeth nag ydyw mewn busnes, ac mae'r grŵp bach o landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn y sector 'eiddo' yn cyfrif am y rhan fwyaf o'r trosiant sy'n cael ei greu (ac eithrio'r ddau fusnes cymdeithasol mwyaf h.y. Glas Cymru a Chymdeithas Adeiladu Principality, nad oeddent yn rhan o'r arolwg).

## 3.1 Cwmpas daearyddol a busnesau newydd

Fel yr amlygom yn yr adran Methodoleg, mae hyd at 2,309 o fusnesau'n gweithredu yn y sector busnes cymdeithasol yng Nghymru. Mae dosbarthiad daearyddol y busnesau hyn i'w weld yn Ffigur 3.1 isod.

**Ffigur 3.1: Dosbarthiad busnesau cymdeithasol ar draws Cymru**




**Ffynhonnell:** Pob busnes cymdeithasol a nodwyd â chod post dilys (n=1,816)

Mae dosbarthiad daearyddol y busnesau cymdeithasol yn cymharu'n fras â'r stoc fusnes yn gyffredinol, fel sydd i'w gweld yn Ffigur 3.2 isod, er bod tystiolaeth bod busnesau wedi'u crynhoi'n benodol mewn rhai o'r cymoedd tlotaf yn ne Cymru, yn berthynol i'r stoc fusnes gyffredinol. Er enghraifft, mae tri y cant o'r busnesau cymdeithasol a nodwyd wedi'u lleoli ym Merthyr Tudful, sydd deirgwaith yn uwch na chyfran yr holl fusnesau sydd wedi'u lleoli yn yr ardal. Mae tuedd debyg i'w gweld yn RhCT a Blaenau Gwent, er i raddau llai. I'r gwrthwyneb, mae'r ardaloedd mwy gwledig yn nwyrain Cymru yn cael eu cynrychioli llai o lawer gan fusnesau cymdeithasol – mae Powys yn cyfrif am wyth y cant o'r holl fusnesau yng Nghymru, ond dim ond pedwar y cant o'r busnesau cymdeithasol, ac mae Sir Fynwy'n cynnwys pedwar y cant o'r busnesau, ond dim ond un y cant o'r busnesau cymdeithasol.

Mae ffigur ar gyfer Bro Morgannwg yn allanolyn, o ystyried yr ychwanegwyd rhestr fusnesau GVS, nad oedd yn cael ei ailadrodd unrhyw le arall yng Nghymru. Felly, nid yw'n cynnig amlinelliad cymaradwy o weithgarwch busnesau cymdeithasol yn yr ardal.


### Ffigur 3.2: Canran y busnesau cymdeithasol a'r holl fusnesau ym mhob awdurdod lleol




**Ffynhonnell:** Pob busnes cymdeithasol a nodwyd lle y nodwyd yr awdurdod lleol (n=2,276), a'r holl fusnesau ym mhob awdurdod lleol (IDBR)

Dull amgen yw ystyried busnesau cymdeithasol fel cyfran o'r holl fusnesau ym mhob awdurdod lleol (gweler Ffigur 3.3 isod). Mae'r siart hwn hefyd yn cymharu'r ffigurau hyn â'r hyn a ganfuom yn 2018, sy'n dangos mân newid. Eto, mae'n pwysleisio amlygrwydd busnesau cymdeithasol yng nghymoedd de Cymru, sy'n cyfrif am fwy na phump y cant o'r holl fusnesau ym Merthyr Tudful a thua tri y chant ym Mlaenau Gwent a RhCT. Gellir cymharu hyn â thuag un y cant yn unig yn Sir Fynwy a Phowys, tra mae cyfraniad busnesau cymdeithasol at y stoc fusnes gyffredinol ledled Cymru tua 2.2 y cant.

**Ffigur 3.3: Canran y busnesau sy'n fusnesau cymdeithasol fesul awdurdod lleol – 2018 o gymharu â 2020 (sampl gyffredinol)**




**Ffynhonnell:** Pob busnes cymdeithasol a nodwyd lle y nodwyd yr awdurdod lleol (n=2,276), a'r holl fusnesau ym mhob awdurdod lleol (IDBR)

Yn olaf, defnyddiwyd data codau post busnesau hefyd i olrhain eu lleoliad yn erbyn eu safleoedd ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC), sy'n rhoi pob cymuned yng Nghymru yn eu trefn o'r ardal fwyaf difreintiedig i'r lleiaf difreintiedig. Mae hyn yn dangos bod busnesau cymdeithasol yn fwy tebygol o weithredu mewn ardaloedd difreintiedig, gyda 45 y cant o fusnesau cymdeithasol yn gweithredu yn y 40 y cant o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, a 30 y cant yn unig yn gweithredu yn y 40 y cant o'r ardaloedd lleiaf difreintiedig. Mae'r canfyddiadau'n lled gyson â'r dadansoddiad a gyflwynwyd yn 2018, ac maent yn arwydd o'r dull gweithredu ar gyfer gweithgarwch busnes cymdeithasol, h.y. cyflawni newid cymdeithasol cadarnhaol. Ar ben hynny, maent yn gyson â chanfyddiadau blaenorol sy'n dangos gweithgarwch busnes cymdeithasol uwch na'r cyfartaledd yng nghymoedd de Cymru. Mae pwysigrwydd busnesau cymdeithasol mewn ardaloedd difreintiedig yn dangos rôl y sector mewn cyfrannu at economi fwy cynhwysol a'r synergedd â'r economi sylfaenol. Fodd bynnag, dylid nodi hefyd fod y dadansoddiad hwn wedi'i gyfyngu gan y diffyg data cymharol ar gyfer y stoc fusnes gyffredinol; er enghraifft, mae'n bosibl bod cyfran fwy o fusnesau wedi'u lleoli mewn ardaloedd mwy difreintiedig yn gyffredinol.


**Table 3.1: Distribution of social businesses by WIMD quintile**

| Cwintel MALlC (1=Mwyaf difreintiedig, 5=Lleiaf difreintiedig) | 2020 | | 2018 | |
|---|---|---|---|---|
| 1 | 372 | **20%** | 241 | **21%** |
| 2 | 453 | **25%** | 282 | **25%** |
| 3 | 452 | **25%** | 269 | **24%** |
| 4 | 333 | **18%** | 212 | **19%** |
| 5 | 206 | **11%** | 119 | **11%** |
| | 1,816 | | 1,123 | |

**Ffynhonnell:** Pob busnes cymdeithasol a nodwyd â chod post dilys (n=1,816)

Caiff y data hwn ei ddangos ar ffurf graffig yn Ffigur 3.4 isod, sy'n dangos y crynodiad uwch o fusnesau yn yr ardaloedd mwy difreintiedig (lliwiau tywyllach) a dosbarthiad llawer mwy gwasgarog yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig (lliwiau goleuach).

**Ffigur 3.4: Dosbarthiad busnesau cymdeithasol ar draws Cymru, ag is-haen o gwintelau MALlC**





**Ffynhonnell:** Pob busnes cymdeithasol a nodwyd â chod post dilys (n=1,816)

### 3.1.1 Gweithgarwch busnesau newydd

Mae dadansoddiad o oedran busnesau yn dangos patrymau tebyg i'r rhai mewn blynyddoedd blaenorol, sef grŵp craidd o fusnesau cymdeithasol sefydledig wedi'i ategu gan grŵp cynyddol o fusnesau newydd.  Fodd bynnag, ymddengys y bu cynnydd sylweddol mewn gweithgarwch busnesau newydd ers yr ymarfer mapio diwethaf, gyda 17 y cant o'r holl fusnesau a arolygwyd yn 2020 wedi dechrau masnachu yn y ddwy flynedd diwethaf (11 y cant yn 2018 ac wyth y cant yn 2016).  Y prif wahaniaeth yw'r busnesau a fu'n weithredol am lai na blwyddyn (11 y cant yn 2020 o gymharu â phedwar y cant yn unig yn 2018), y gellir ei gysylltu â phrosiect Dechrau Newydd Busnes Cymdeithasol Cymru (a lansiwyd ym mis Tachwedd 2019 ac a ddarparodd gynnydd sylweddol i ddarpariaeth BCC sy'n targedu busnesau newydd yn benodol).  Mae ein dadansoddiad yn datgelu bod 46 y cant o'r holl fusnesau hyn (h.y. sydd llai na blwydd oed) wedi cael cymorth gan brosiect Dechrau Newydd BCC.




**Ffigur 3.5: Oedran busnesau adeg yr arolwg – cymhariaeth rhwng 2016, 2018 a 2020 (sampl gyffredinol)**




**Ffynhonnell:** Ymatebwyr Rhan 1 yr arolwg (n=488)

Cynhaliwyd dau ddadansoddiad i nodi dosbarthiad daearyddol y gweithgarwch busnesau newydd hyn a'r twf mewn gweithgarwch busnesau cymdeithasol. Yn gyntaf, archwiliom gyfradd y busnesau newydd ym mhob awdurdod lleol a chymharu hyn â dosbarthiad cyffredinol yr ymatebwyr ym mhob awdurdod lleol. Mae hyn yn awgrymu bod gweithgarwch busnesau newydd wedi'i grynhoi'n benodol yng ngogledd-ddwyrain Cymru – mae Sir Ddinbych a Wrecsam yn cyfrif am 15 y cant o'r holl fusnesau newydd a arolygwyd, sef bron i ddwywaith yn fwy na'r holl ymatebwyr i'r arolwg yn yr ardaloedd hyn (wyth y cant). Mae'r data hefyd yn awgrymu, er bod Cymoedd De Cymru'n cynrychioli sylfaen uchel ar gyfer gweithgarwch busnes cymdeithasol, ymddengys y bu gweithgarwch busnesau newydd yn gymharol isel yn yr ardaloedd hyn – dim ond wyth y cant o'r ymatebwyr a oedd yn fusnesau newydd a oedd wedi'u lleoli ym Merthyr, RhCT a Blaenau Gwent, o gymharu ag 11 y cant o'r holl ymatebwyr.

**Ffigur 3.6: Canran yr holl ymatebwyr i'r arolwg a'r busnesau newydd a arolygwyd ym mhob awdurdod lleol**




**Ffynhonnell:** Ymatebwyr Rhan 1 yr arolwg (n=488)

Archwiliom gyfanswm y busnesau cymdeithasol a nodwyd ym mhob awdurdod lleol o 2016 hyd 2020 hefyd, gan ddefnyddio'r ymarfer casglu data cychwynnol. Eto, mae hyn yn awgrymu bod twf mewn gweithgarwch busnesau cymdeithasol wedi'i grynodi mewn ardaloedd sy'n dechrau o sylfaen is. Er enghraifft, tyfodd busnesau yng Nghasnewydd 51 y cant, er bod y sector yn cyfrif am 1.7 y cant yn unig o'r holl fusnesau yn yr ardal (islaw'r cyfartaledd cenedlaethol). Hefyd, roedd twf o 27 y cant yn Wrecsam, lle mae 1.9 y cant yn unig o fusnesau'n fusnesau cymdeithasol. Gallai'r gweithgarwch busnesau newydd uchel a ganfuwyd yn yr ardal (gweler y siart blaenorol) esbonio hyn, er y deallir hefyd fod gan Wrecsam Hwb Menter gweithgar dros ben. I'r gwrthwyneb, gellir gweld yr effaith gyferbyniol yng Nghymoedd De Cymru (sy'n cynnwys yr ardaloedd sy'n dechrau o'r sylfaen uchaf), ac roedd nifer y busnesau cymdeithasol a nodwyd ym Merthyr, Blaenau Gwent a RhCT yn is na'r hyn a ganfuwyd yn 2018. Yn Nhorfaen, nid oedd 17 y cant o fusnesau cymdeithasol yn masnachu mwyach, sydd ymhell uwchlaw'r cyfartaledd (saith y cant). Cofnodwyd cyfraddau marwolaeth uchel ym Mlaenau Gwent (14 y cant), Conwy (13 y cant), Caerffili (11 y cant) a Phen-y-bont ar Ogwr (10 y cant) hefyd. Gallai hyn adlewyrchu dirywiad hirdymor clybiau ag aelodau, sydd i'w weld ar draws y DU. Mae'r Cymoedd ymhlith yr ardaloedd lle'r ydych yn fwyaf tebygol o ddod o hyd i glybiau gweithwyr, ond bu'r niferoedd yn dirywio'n gyson ers diflaniad diwydiant trwm ac oherwydd arferion hamdden cyfnewidiol[7]. Ni ellir rhoi llawer o goel ar y ffigurau twf ar gyfer Bro Morgannwg o ystyried yr ychwanegwyd cysylltiadau GVS at yr ymarfer hwn.

[7] https://www.walesonline.co.uk/news/wales-news/traditional-working-mens-clubs-declining-12146047

### Tabl 3.2: Dosbarthiad busnesau cymdeithasol yn 2016, 2018 a 2020


| Awdurdod Lleol | 2016 | 2018 | 2020 | Gwahaniaeth | % Cynnydd |
|---|---|---|---|---|---|
| Bro Morgannwg | 28 | 41 | 217 | 176 | 429% |
| Caerdydd | 138 | 228 | 265 | 37 | 16% |
| Casnewydd | 32 | 51 | 76 | 25 | 49% |
| Abertawe | 148 | 135 | 158 | 23 | 17% |
| Wrecsam | 47 | 62 | 78 | 16 | 26% |
| Ceredigion | 42 | 71 | 79 | 8 | 11% |
| Sir y Fflint | 28 | 65 | 70 | 5 | 8% |
| Sir Fynwy | 22 | 29 | 34 | 5 | 17% |
| Ynys Môn | 47 | 56 | 60 | 4 | 7% |
| Caerffili | 68 | 99 | 98 | -1 | -1% |
| Conwy | 48 | 76 | 78 | 2 | 3% |
| Sir Ddinbych | 50 | 71 | 72 | 1 | 1% |
| Pen-y-bont ag Ogwr | 72 | 83 | 85 | 2 | 2% |
| Gwynedd | 100 | 127 | 128 | 1 | 1% |
| Merthyr Tudful | 66 | 67 | 64 | -3 | -4% |
| Sir Benfro | 69 | 121 | 115 | -6 | -5% |
| Castell-nedd Port Talbot | 93 | 79 | 73 | -6 | -8% |
| Rhondda Cynon Taf | 142 | 162 | 155 | -7 | -4% |
| Sir Gaerfyrddin | 202 | 174 | 164 | -10 | -6% |
| Blaenau Gwent | 42 | 45 | 38 | -7 | -16% |
| Powys | 69 | 110 | 100 | -10 | -9% |
| Torfaen | 48 | 51 | 40 | -11 | -22% |
| **Cyfanswm a nodwyd** | **1,601** | **2,003** | 2,247 | 244 | 12% |

**Ffynhonnell:** Yr holl fusnesau cymdeithasol a nodwyd lle y nodwyd yr awdurdod lleol (n=2,276), a'r holl fusnesau ym mhob awdurdod lleol (IDBR)

## 3.2 Math o sefydliad ac arweinyddiaeth

Canfu ymarferion mapio blaenorol gynnydd yng nghyfran y busnesau cymdeithasol a oedd yn ystyried eu hunain yn fentrau cymdeithasol, ynghyd â llai o fusnesau a oedd yn ystyried eu hunain yn elusennau, a oedd yn adlewyrchu tuedd tuag at ffocws mwy masnachol yn y sector. Mae data'r arolwg yn awgrymu y cynhaliwyd cyfran y busnesau sy'n ystyried eu hunain yn fentrau cymdeithasol, tra mae'r gyfran sy'n ystyried eu hunain yn elusennau yn disgyn o hyd.

**Ffigur 3.7: Mathau o fusnesau cymdeithasol a arolygwyd yn 2016, 2018 a 2020 (sampl gyffredinol)**





**Ffynhonnel:** Ymatebwyr Rhan 1 yr arolwg (n=507))

Er mai dim ond dau y cant a ddewisodd yr opsiwn 'busnes a gynorthwyir', mae ymchwil flaenorol wedi dangos bod llawer mwy o fusnesau'n bodloni'r meini prawf ar gyfer busnes a gynorthwyir nag sy'n sylweddoli hynny. Mae hyn yn bwysig, gan fod cyfleoedd neilltuedig i fusnesau a gynorthwyir sydd wedi'u corffori o fewn caffael cyhoeddus. Felly, gofynnwyd dau gwestiwn dilynol i ymatebwyr nad oeddent yn dewis yr opsiwn hwn i ddeall gwir faint gweithgarwch busnes a gynorthwyir. I ddechrau, nododd 23 y cant o'r ymatebwyr eu bod yn deall y cysyniad o fusnes a gynorthwyir; felly, tybir nad yw'r rhain yn fusnesau a gynorthwyir. Yn ail, lle nad oedd busnesau'n ymwybodol o'r cysyniad hwnnw, rhoddwyd diffiniad llawn a gofynnwyd i'r ymatebwyr eto a oedd eu gweithrediad yn bodloni'r meini prawf. Yn erbyn y gefnlen hon, canfu'r arolwg y gellir dosbarthu 11 y cant o fusnesau cymdeithasol yn fusnesau a gynorthwyir, sydd ychydig yn is na'r gyfran a grybwyllodd hyn yn 2018 (15 y cant).

Mae statws cyfreithiol busnesau cymdeithasol wedi parhau'n weddol debyg i ymarferion blaenorol, ac mae tua hanner y busnesau'n gweithredu fel cwmnïau cyfyngedig drwy warant.

**Ffigur 3.8: Statws cyfreithiol busnesau cymdeithasol a arolygwyd yn 2016, 2018 a 2020 (sampl gyffredinol)**




**Ffynhonnel:** Ymatebwyr Rhan 1 yr arolwg (n=507)

Canfu'r arolwg hefyd fod dau y cant o fusnesau cymdeithasol yn ganghennau masnachu elusennau, roedd dau y cant arall yn rhan o gadwyn o fusnesau cymdeithasol, ac roedd un y cant yn is-gwmni sefydliad sector preifat.

## 3.2.1 Proffil arweinyddiaeth

O ran cyfansoddiad y tîm arweinyddiaeth a'r cyflogai uchaf, mae'r data'n dangos cydbwysedd lled gyfartal o ran rhywedd, ac felly cynrychiolaeth uwch o lawer o fenywod nag sy'n nodweddiadol yn y sector preifat. Er enghraifft, canfu data'r Arolwg Busnesau Bach diweddaraf (2019) mai dim ond 15 y cant o fusnesau bach a chanolig oedd dan arweinyddiaeth menywod.[8] Yng Nghymru, mae 51 y cant o fusnesau cymdeithasol dan arweiniad menywod. Mae'r data yng Nghymru hefyd yn portreadu sector mwy amrywiol o ran y cydbwysedd o ran rhywedd nag ar draws y DU (lle mai dim ond 40 y cant oedd dan arweiniad menywod yn ôl adroddiad 2019 SEUK).


Dim ond pedwar y cant o fusnesau sydd dan arweiniad cymunedau lleiafrifoedd ethnig, sy'n sylweddol is na'r 13 y cant a welwyd ar draws y DU, er y dylid ystyried cyfansoddiad demograffig gwahanol y boblogaeth yng Nghymru a'r DU yn ei chyfanrwydd. Serch hynny, datgelodd Cyfrifiad 2011, ar y pryd, nad oedd saith y cant o boblogaeth Cymru yn 'Wyn Cymreig/Prydeinig'; felly, mae'n ymddangos bod cymunedau lleiafrifoedd ethnig wedi'u tangynrychioli ymhlith arweinwyr busnesau cymdeithasol. Roedd rhywfaint o amrywiad yn ddaearyddol, gydag wyth y cant o fusnesau yng Nghaerdydd dan arweiniad cymunedau lleiafrifoedd ethnig. Fodd bynnag, serch hynny, mae hyn ymhell islaw'r cyfartaledd (lle mae bron i 20 y cant o drigolion Caerdydd yn disgyn i grwpiau heblaw 'Gwyn Cymreig/Prydeinig' yn ôl Cyfrifiad 2011).

[8] https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/889656/LSBS_2019_employers.pdf

Mae'r data hefyd yn awgrymu bod pobl sy'n byw ag anabledd neu gyflwr iechyd hirdymor wedi'u tangynrychioli ymhlith arweinwyr y sector. Er eu bod yn cyfrif am 23 y cant o'r boblogaeth (yn ôl data'r Cyfrifiad diweddaraf), dim ond 18 y cant o fusnesau sydd dan arweiniad pobl ag anabledd neu gyflwr iechyd hirdymor, a dim ond 12 y cant sydd wedi'u cynrychioli ar y tîm arweinyddiaeth yn ei gyfanrwydd.

Ymddengys y bu ymgysylltu ag entrepreneuriaid ifanc yn her arall i fusnesau cymdeithasol yng Nghymru, a thri y cant yn unig o'r tîm arweinyddiaeth sydd dan 25 oed. Mae hyn o gymharu â saith y cant ledled y DU, yn ôl adroddiad 2019 SEUK. Fodd bynnag, yn anecdotaidd, deallir fod hyn yn newid.

**Ffigur 3.9: Canran uwch dimau arweinyddiaeth busnesau a'r cyflogeion uchaf sy'n disgyn o fewn grwpiau demograffig gwahanol**




**Ffynhonnell:** Ymatebwyr Rhan 2 yr arolwg (n=349)


## 3.3 Sectorau gweithredol

Nodwyd sector gweithredol busnesau cymdeithasol drwy gymysgedd o hunanddosbarthu ac ar sail disgrifiad o'u gwasanaethau. Mae Ffigur 3.10 yn dangos y materion a drafodwyd yn y Fethodoleg mewn perthynas â dylanwad COVID-19 ar hygyrchedd gwahanol sectorau gweithredol ar gyfer yr ymchwil hon. Roedd y sectorau a oedd yn fwyaf tebygol o fod wedi atal masnachu, fel y celfyddydau a hamdden, canolfannau cymunedol, a llety, yn haws eu cyrraedd, tra'r oedd y sectorau mwy gweithredol o ran ymateb i'r pandemig e.e. iechyd a gofal, yn anoddach o lawer i'w cyrraedd.

Serch hynny, mae'r data (eto) yn cadarnhau amrywioldeb y sector, gydag ystod eang o weithgarwch yn torri ar draws sawl sector o'r economi. Mae'n cadarnhau pwysigrwydd y sector yn yr economi sylfaenol, gyda llawer o fusnesau'n darparu gwasanaethau mewn addysg neu iechyd a gofal, er enghraifft. Yn llawn cymaint, mae hefyd yn dangos bod cyfran fawr o fusnesau cymdeithasol yn grwpiau cymunedol llai neu'n ddarparwyr gweithgareddau'r celfyddydau a hamdden, gan gynnwys sefydliadau celfyddydau cymunedol, elusennau treftadaeth, clybiau chwaraeon, cyrff llywodraethol, gweithredwyr canolfannau hamdden, darparwyr dosbarthiadau gymnasteg a dawns, a llawer mwy.

Mae'r disgrifiad a ddarparwyd gan fusnesau o'u gweithgarwch hefyd yn dangos y synergeddau â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Mae gan yr asedau cymunedol sy'n hwyluso gweithgarwch a grwpiau cymunedol rôl bwysig o ran dod â chymunedau at ei gilydd a chreu Cymru o gymunedau cydlynus. Ar ben hynny, ceir sawl enghraifft o sefydliadau sydd â'r nod o ddiogelu asedau a gwasanaethau cymunedol pwysig a'u galluogi i gael eu defnyddio unwaith eto. Mae gan lawer o'r busnesau sy'n canolbwyntio ar iechyd a gofal, ac addysg, rôl bwysig o ran creu Cymru iachach a mwy cyfartal e.e. drwy gynnig hyfforddiant i bobl ag anableddau dysgu neu drwy wasanaethau gofal cymdeithasol ac iechyd meddwl. Mae gan eraill gylch gorchwyl penodol i hyrwyddo eu hardaloedd; er enghraifft, roedd gan un sefydliad y nod o hyrwyddo siopau ar Stryd Fawr Bangor drwy gymorth ariannol a phrosiectau fel glanhau'r stryd, gan felly alinio'n gryf â'r uchelgais o greu Cymru fwy llewyrchus. Ceir sawl enghraifft arall o fusnesau sydd hefyd yn cyfrannu at y nod hwn drwy weithgareddau fel cymorth cyflogadwyedd, tra mae sawl sefydliad treftadaeth sy'n bwysig o ran creu Cymru â diwylliant bywiog a'r cyfleoedd economaidd y mae hynny'n eu cynnig.

**Ffigur 3.10: Sectorau gweithredol busnesau cymdeithasol a arolygwyd yn 2018 a 2020 (sampl gyffredinol)**





**Ffynhonnel:** Ymatebwyr Rhan 1 yr arolwg (n=470)

## 3.4 Maint busnesau

Mae deuoliaeth y sector, sy'n cyfuno cyfran uwch na'r cyfartaledd o sefydliadau maint canolig i fawr â chyfran fawr o sefydliadau bach iawn, i'w gweld eto yn yr arolwg. Mae'r data'n dangos bod pump y cant o fusnesau cymdeithasol o faint canolig i fawr (h.y. bod ganddynt o leiaf 50 o gyflogeion), sydd ymhell uwchlaw'r cyfwerth ar gyfer pob busnes yn yr economi yng Nghymru (un y cant yn unig). Yn llawn cymaint, nid oedd gan 32 y cant o'r busnesau cymdeithasol y gwnaethom eu harolygu unrhyw staff cyflogedig o gwbl, ac roedd gan naw y cant ohonynt un aelod staff cyflogedig yn unig, sydd efallai'n adlewyrchu cyffredinrwydd busnesau newydd, ond hefyd yn arwydd o'r holl grwpiau cymunedol bach iawn sy'n gweithredu yn y sector. Mae'n bwysig nodi bod hyn yn uwch na'r gyfran a ganfuwyd yn 2018, o ystyried y problemau samplu a drafodwyd yn yr adran Methodoleg; fodd bynnag, serch hynny, nid oedd gan 25 y cant o fusnesau cymdeithasol yn 2018 unrhyw staff cyflogedig o gwbl.

Maint cyfartalog cymedrig busnesau oedd 17 o gyflogeion.[9] Mewn ymarferion mapio blaenorol, defnyddiwyd y ffigur cyfartalog cymedrig fel ffigur i greu amcangyfrif sector cyfan ar gyfer pob un o'r cyflogeion sy'n gweithio mewn busnesau cymdeithasol. Trwy ddefnyddio'r un dull, byddai hyn yn cyfateb i hyd at 40,000 o gyflogeion yn gweithio yn y sector, sydd islaw'r 58,000 a nodwyd yn 2018. Mae hyn oherwydd bod y maint cyfartalog ymhell islaw'r hyn a ganfuwyd yn 2018 (sef 27 o gyflogeion fesul busnes). Fodd bynnag, mae dadansoddiad o'r sampl gyfatebol yn dangos bod y busnesau a arolygwyd yn 2018, a oedd yn cynrychioli 220 o fusnesau neu 43 y cant o'n sampl gyfan yn 2020, wedi tyfu 1.8 y cant, ar gyfartaledd. Yn ogystal, canfu'r ymchwil fod nifer cymharol fach o fusnesau wedi cau ac roedd yn awgrymu, mewn gwirionedd, y bu twf cymharol fach yn nifer y busnesau sy'n gweithredu yn y sector. Yn unol â hynny, nid oes llawer o dystiolaeth sy'n awgrymu y bu gostyngiad yn nifer y cyflogeion yn y sector. Mae'n debygol bod effaith y pandemig a'r mathau o fusnesau roeddem yn gallu eu harolygu yn esbonio'r gostyngiad i'r maint cyfartalog yn y sampl gyffredinol, sy'n effeithio ar y cyfrifiadau ar gyfer maint cyffredinol y sector. Felly, defnyddiwyd dull gwahanol i amcangyfrif maint y sector, gan ddefnyddio cynnydd go iawn o'r sampl gyfatebol (1.8 y cant ar gyfartaledd), sy'n cael ei gymhwyso i ffigur maint cyflogaeth 2018. Ar y sail honno, amcangyfrifwn fod 59,000 o gyflogeion yn gweithio yn y sector.


**Ffigur 3.11: Bandiau cyflogaeth yn y sector busnes cymdeithasol yng Nghymru o gymharu â phob busnes (2020)**




**Ffynhonnel:** Ymatebwyr Rhan 1 yr arolwg (n=497)

[9] Mae hyn wedi'i seilio ar gynnwys data cyflogeion saith landlord cymdeithas cofrestredig na chymerodd ran yn yr arolwg, ond a gafwyd o'u cofnodion ariannol (gweler yr adran Methodoleg)


**Ffigur 3.12: Bandiau cyflogaeth busnesau cymdeithasol yn 2016, 2018 a 2020 (sampl gyffredinol)**




**Ffynhonnell:** Ymatebwyr Rhan 1 yr arolwg (n=497)

Mae data trosiant (unwaith eto) yn dangos natur amrywiol y sector o ran crynodiadau mwy o fusnesau cymdeithasol ar ddau ben y raddfa. Ar ben hynny, mae'n dangos bod bandiau trosiant yn gymharol gyson â mentrau cymdeithasol ledled y DU.

**Ffigur 3.13: Bandiau trosiant yn y sector busnes cymdeithasol yng Nghymru (2020) o gymharu â mentrau cymdeithasol ledled y DU (2019)**




**Ffynhonnel:** Ymatebwyr Rhan 1 yr arolwg, ac eithrio'r rhai nad oedd wedi cwblhau blwyddyn ariannol, a atebodd 'mae'n well gennyf beidio â dweud' a 'ddim yn gwybod' (n=432)

Y trosiant cyfartalog cymedrig oedd £1.25 miliwn.[10] Mae'r ffigur hwn wedi'i yrru'n bennaf gan nifer fach a sefydliadau mawr iawn sy'n cynhyrchu degau o filiynau yr un mewn trosiant. Os tybiwn fod y trosiant ar gyfer busnesau na chymerodd ran yn yr arolwg yn adlewyrchu'r cyfartaledd hwn, gallwn amcangyfrif cyfanswm y gwerth a gynhyrchir gan fusnesau cymdeithasol yng Nghymru. Mae'r dadansoddiad hefyd yn cynnwys addasiadau ar gyfer ychwanegiad y cwmni dŵr, Glas Cymru, a Chymdeithas Adeiladu Principality (y mae'r ddau ohonynt yn 'allanolion' â throsiant uchel iawn), ynghyd â'r landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a ddisgrifiwyd yn yr adran Methodoleg.

Amcangyfrifir mai cyfanswm gwerth y sector, yn seiliedig ar drosiant amcangyfrifedig busnesau cymdeithasol hysbys a chanfyddadwy yng Nghymru, yw £3.1 – 3.8 biliwn. Nid yw'r amcangyfrifon hyn o weithgarwch busnesau cymdeithasol sydd wedi'u lleoli yng Nghymru yn cyfrif am gyfraniad busnesau cymdeithasol eraill sy'n gweithredu yng Nghymru ond sydd â phencadlys rywle arall, fel Co-operative Group a John Lewis & Partners. Felly, mae'r cyfraniad a wneir gan yr holl weithgarwch busnes cymdeithasol yng Nghymru hyd yn oed yn fwy na'r hyn a ddangosir yma.


## 3.4.1 Maint sectorau gweithredol

Mae dadansoddiad o faint busnesau yn ôl sector gweithredol yn datgelu'r amrywioldeb yn y sector ymhellach. Mae busnesau'r celfyddydau/hamdden a chanolfannau cymunedol yn cyfrif am bron i hanner yr holl fusnesau a arolygwyd (46 y cant); fodd bynnag, maent yn cyfrif am 14 y cant o'r cyflogeion a chwech y cant yn unig o'r trosiant a gynhyrchir gan yr ymatebwyr. I'r gwrthwyneb, mae'r nifer fach o gyflogwyr yn y sector 'eiddo' (gan gynnwys landlordiaid cymdeithasol cofrestredig) yn cyfrif am 64 y cant o'r holl drosiant a gynhyrchir gan ymatebwyr, a 41 y cant o'r gyflogaeth, tra mae iechyd a gofal hefyd yn cyfrif am lefelau anghyfartal o uchel o gyflogaeth. Mae dau ar bymtheg o'r busnesau cymdeithasol a gynhwyswyd yn yr amcangyfrif a grybwyllwyd uchod o werth y sector, sef 0.7 y cant o'r sector yn unig, yn cyfrif am 34 y cant o gyfanswm y gwerth a gynhyrchir gan y sector.



[10] Mae hyn wedi'i seilio ar gynnwys data trosiant wyth landlord cymdeithasol cofrestredig na chymerodd ran yn yr arolwg, ond a gafwyd o'u cofnodion ariannol (gweler yr adran Methodoleg)

### Ffigur 3.14: Canran y busnesau, cyflogaeth a throsiant ym mhob sector gweithredol




**Ffynhonnell:** Part 1 survey respondents, excluding those who had not completed a financial year, 'rather not say', and 'don't know' (n=432)




# Adran 04
# Gwerth ac effeithiau cymdeithasol

04

»

# 04 Gwerth ac effeithiau cymdeithasol

Mae busnesau cymdeithasol yn wahanol i gwmnïau sector preifat clasurol ac elusennau traddodiadol gan eu bod yn taro cydbwysedd rhwng y ddau, gan geisio masnachu fel unrhyw fusnes arall ar y naill law, ond maent hefyd yn bodoli'n bennaf i gyflawni eu cenhadaeth gymdeithasol. Ar ôl trafod y perfformiad busnes a masnachu yn y bennod flaenorol, rydym bellach yn troi ein sylw at archwilio eu gwerth a'u heffeithiau cymdeithasol.



## Crynodeb o'r adran

- Bu ffocws cynyddol ar gefnogi cymunedau ac unigolion sydd wedi'u hallgau'n gymdeithasol neu'n ariannol
- Ar y cyfan, disgrifiodd busnesau fwy o amcanion cymdeithasol eleni, sy'n dangos rôl y sector o ran ehangu ei gefnogaeth i fynd i'r afael â'r anghenion cymdeithasol a grëwyd gan y pandemig, o bosibl
- Mae 73 y cant yn ymwybodol o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn credu ei bod yn cael effaith ar eu busnesau, er enghraifft ei bod yn llywio eu harlwy cymorth, ei bod wedi'i chynnwys yn eu dogfen lywodraethu neu'n cael ei defnyddio mewn ceisiadau am gyllid
- Mae 54 y cant yn ymwybodol o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant ac, eto, crybwyllodd y mwyafrif ohonynt ei bod yn effeithio ar eu busnes, er enghraifft drwy ffurfio rhan o'u polisïau diogelu a hyfforddiant staff
- Dim ond 20 y cant sy'n ymwybodol o'r economi sylfaenol
- Mae pedwar deg pedwar y cant yn mesur eu heffeithiau cymdeithasol, er mai dim ond 12 y cant ohonynt sy'n defnyddio hyn i hyrwyddo eu busnes
- Mae 68 y cant yn talu'r Cyflog Byw i'w holl staff, sydd ychydig yn is na ffigur cyfwerth SEUK
- Amlygodd 36 y cant o'r bobl gyflogedig a oedd yn ddi-waith yn syth cyn ymgymryd â'r swydd rôl y sector o ran cefnogi'r rhai sydd ymhellach o'r farchnad lafur
- Mae 69 y cant o weithlu'r busnesau'n byw o fewn 10 milltir o'u gweithle, sy'n dangos rôl y sector fel cyflogwyr lleol
- Ymddengys y bu gostyngiad mewn gweithgarwch gwirfoddoli o ganlyniad i gyfyngiadau COVID-19
- Fodd bynnag, amcangyfrifir bod 36,000–47,500 o wirfoddolwyr yn y sector yng Nghymru

## 4.1 Amcanion cymdeithasol


### 4.1.1 Trosolwg o amcanion cymdeithasol

Mae'r data'n dangos patrwm tebyg iawn i'r blaenoriaethau a amlinellwyd gan fusnesau mewn ymarferion blaenorol.  Awydd i wella cymuned benodol yw'r brif flaenoriaeth i fusnesau o hyd, wedi'i dilyn gan wella iechyd/lles a chefnogi pobl sy'n agored i niwed.  Ymddengys bod cymorth yn ymwneud ag allgau cymdeithasol ac ariannol yn uwch o lawer eleni, sy'n debygol o adlewyrchu rhai o'r amcanion a gyflwynwyd gan y pandemig, pan fyddai cyfnodau clo yn ynysu pobl yn naturiol ac yn arwain at bryderon ariannol.

Mae cynnydd hefyd yng nghyfran y busnesau sy'n annog pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau, chwaraeon a hamdden, er bod hyn yn debygol o adlewyrchu cyfran uwch y sector gweithredol hwnnw yn y sampl.

At ei gilydd, disgrifiodd busnesau fwy o amcanion cymdeithasol eleni nag mewn ymarferion blaenorol – ar gyfartaledd, disgrifiodd busnesau eu bod yn cydweddu â phum amcan cymdeithasol/amgylcheddol yn 2020, o gymharu â phedwar yr un yn 2018.  Efallai bod hyn yn arwydd o'r anghenion cymdeithasol cynyddol a grëwyd gan y pandemig, wrth i fwy o fusnesau benderfynu canolbwyntio ar feysydd fel allgau cymdeithasol ac ariannol; er enghraifft, yn anecdotaidd, bu llawer o enghreifftiau o fusnesau cymdeithasol yn cynnig gwasanaethau tebyg i fanciau bwyd.  Mae hyn yn dystiolaeth bellach o ymatebolrwydd y sector i'r pandemig, a'i rôl o ran ceisio lliniaru rhai o'r effeithiau cymdeithasol ac economaidd niweidiol.

**Ffigur 4.1: Prif amcanion cymdeithasol neu amgylcheddol (fel y'i nodwyd gan sefydliadau) – cymariaethau rhwng 2016, 2018 a 2020**





**Ffynhonnell:** Ymatebwyr Rhan 2 yr arolwg (n=363)

## 4.1.2 Synergedd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a meysydd polisi eraill

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (DLlCD) yn cynrychioli darn o ddeddfwriaeth ddiweddar allweddol yng Nghymru a grëwyd ar gyfer busnesau cymdeithasol am flynyddoedd i ddod. Diben y Ddeddf yw gwella llesiant cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd Cymru drwy'r rhwymedigaeth gyfreithiol a roddir ar awdurdodau cyhoeddus i weithredu'n unol ag egwyddorion y Ddeddf. Mae'r Ddeddf yn cynnwys saith nod llesiant sydd wedi'u croesgyfeirio yn erbyn yr amcanion cymdeithasol a ddisgrifir uchod. Mae'r dadansoddiad yn awgrymu bod diben craidd y rhan fwyaf o fusnesau cymdeithasol yn golygu eu bod yn gweithio tuag at bump o'r saith nod llesiant, gan gynnwys Cymru fwy cydnerth, lewyrchus, gyfartal, iachach a Chymru o gymunedau cydlynus.

Bu mwy o synergedd â nodau cymdeithasol sy'n gysylltiedig â chreu Cymru fwy cyfartal, gydnerth ac iachach eleni o gymharu â'r ymarfer diwethaf, ond ychydig yn llai o ffocws ar greu Cymru fwy llewyrchus. Mae pob un o'r rhain yn gyson â'r anghenion cyfnewidiol a grëwyd gan y pandemig, gyda llai o bwyslais ar ffynnu a mwy ar gynnal iechyd a safonau byw.

**Ffigur 4.2: Prif amcanion cymdeithasol neu amgylcheddol (fel y'i nodwyd gan sefydliadau) – cymhariaeth rhwng 2018 a 2020**




**Ffynhonnell:** Ymatebwyr Rhan 2 yr arolwg (n=363)

Mae mwyafrif helaeth y busnesau (73 y cant) yn ymwybodol o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a chrybwyllodd 87 y cant ohonynt sy'n ymwybodol ohoni mewn cwestiwn penagored fod y Ddeddf yn cael effaith ar eu busnes. Mae codio'r ymatebion hyn yn thematig yn dangos y gellir categoreiddio'r prif effeithiau fel a ganlyn:

- Crybwyllodd 26 y cant ei bod yn dylanwadu ar eu gweithgarwch e.e. eu bod yn defnyddio'r Ddeddf i gynllunio prosiectau'r dyfodol, arwain eu gweithgarwch a'u gwasanaethau cymorth, a'i bod wedi'i hymgorffori yn eu cynllun busnes
- Crybwyllodd 21 y cant ohonynt ei bod wedi'i hymgorffori yn eu dogfennau llywodraethu a pholisi, a'i bod yn llywio eu nodau strategol
- Crybwyllodd 16 y cant ohonynt ei bod yn bwynt cyfeirio pwysig mewn ceisiadau am gyllid
- Crybwyllodd saith y cant ei bod yn offeryn lobïo pwysig i ddadlau pam y mae angen cyllid ar eu gwasanaethau ac i farchnata eu gweithgarwch
- Crybwyllodd pedwar y cant y caiff ei defnyddio'n sail i fesur eu heffaith

Mae enghreifftiau o'r sylwadau a wnaed i'w gweld isod i gyfleu'r teimlad hwn:

> Mae'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wedi'i chynnwys yn ein polisïau ac rydyn ni'n ei defnyddio cryn dipyn pan mae'n rhaid i ni wneud ceisiadau am grantiau. Ers cyflwyno'r Ddeddf, mae ein gweithgareddau'n canolbwyntio mwy ar iechyd a lles."

> Mae'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn hanfodol i'n gwasanaethau eiriolaeth, gan ei bod yn rhoi'r awdurdod cyfreithiol i ni roi pwysau ar awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaethau i'r bobl rydyn ni'n eu cefnogi."

> Mae'n ganolbwynt i bopeth a wnawn a phopeth rydyn ni'n bwydo i mewn iddo, yr holl fentrau a gweithdai rydyn ni'n eu gwneud, ac mae'r holl gyllid rydyn ni'n ei gael drwy'r Cyngor Celfyddydau yn cael ei gyflenwi drwy'r Ddeddf honno."

> Rydyn ni'n defnyddio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wrth gynllunio ein prosiectau ar gyfer y dyfodol ac ystyried eu heffaith ar y gymuned."

Yn ogystal, roedd 54 y cant o'r holl ymatebwyr i Ran 2 yr arolwg yn ymwybodol o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Lle'r oedd busnesau'n ymwybodol o'r Ddeddf, crybwyllodd 81 y cant ohonynt ei bod yn effeithio arnynt, gan fynegi rhai o'r un themâu, er bod y Ddeddf hon hefyd yn bwysig ym mholisïau diogelu llawer o fusnesau a'r hyfforddiant a roddir i'w cyflogeion:

- Crybwyllodd 21 y cant ei bod yn ganolog i'r gwaith a wnânt
- Crybwyllodd 19 y cant ei bod wedi'i hymgorffori yn eu dogfennau llywodraethu a'u dogfennau polisi
- Esboniodd naw y cant fod ganddynt rwymedigaeth gyfreithiol i gydymffurfio â'r Ddeddf
- Esboniodd naw y cant ei bod yn ffurfio rhan o'u polisïau diogelu
- Crybwyllodd wyth y cant ei bod yn llywio eu rhaglen hyfforddi staff
- Esboniodd saith y cant y gellir ei defnyddio at ddibenion lobïo/marchnata

> Mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn ganolog i'n holl weithgareddau gofal, ac mae ein holl staff yn cael hyfforddiant ar elfennau diogelu'r Ddeddf."

> Rydyn ni'n gweithio â phobl hŷn ac mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn rhan allweddol o'n hyfforddiant diogelu i staff. Rydyn ni hefyd yn defnyddio'r Ddeddf yn ein gwasanaethau eirioli i bobl hŷn yn ymwneud â gwresogi eu cartrefi."

Y trydydd maes polisi a'r un terfynol a brofwyd yn yr arolwg oedd yr economi sylfaenol, yr oedd 20 y cant o'r busnesau'n ymwybodol ohoni. Mae hyn yn awgrymu bod angen gwneud rhagor o waith i godi ymwybyddiaeth o'r cysyniad, a sut y gallai busnesau cymdeithasol ei ddefnyddio i fanteisio ar gyfleoedd. Lle'r oedd busnesau'n ymwybodol ohoni, crybwyllodd 65 y cant ohonynt effaith, ac esboniodd 44 y cant ohonynt ei bod wedi ffurfio rhan o'u cynigion busnes, neu eu bod wedi cyflwyno prosiectau a ariannwyd dan agenda'r economi sylfaenol:

> Rydyn ni wedi defnyddio'r economi sylfaenol yn ein cynnig busnes i'w awdurdod lleol, a byddwn yn cyflawni prosiect iddo yn y dyfodol."

## 4.1.3 Mesur effeithiau cymdeithasol


Crybwyllodd 44 y cant o'r ymatebwyr nad ydynt yn mesur eu heffeithiau cymdeithasol. Fodd bynnag, o'r rhain, 12 y cant yn unig a grybwyllodd eu bod yn defnyddio hyn i hyrwyddo eu busnes.

## 4.2 Cyrchfannau elw

Y prif wahaniaeth rhwng busnes prif ffrwd a busnes cymdeithasol yw y caiff unrhyw warged a wneir gan fusnes cymdeithasol ei ailfuddsoddi yn y busnes neu'r gymuned yn bennaf, yn hytrach na'u bod yn cael eu sbarduno gan yr angen i wneud yr elw mwyaf i gyfranddalwyr a pherchenogion. Mae Ffigur 4.3 yn dangos bod 93 y cant o'r ymatebwyr yn ailfuddsoddi eu helw yn eu busnes, a bod 23 y cant ohonynt yn ei roi tuag at eu hamcan cymunedol neu gymdeithasol/amgylcheddol. Mae'r canfyddiadau hyn yn debyg iawn i'r hyn a grybwyllwyd yn 2018 a 2016, er y bu symud bach tuag at fuddsoddi yn y busnes yn hytrach na buddsoddi yn eu nodau cymdeithasol, o ganlyniad i'r ansicrwydd o ran eu cyllid yn sgil y pandemig, mae'n debyg.

Mae'n bwysig nodi mai ychydig iawn o fusnesau yn y sampl sydd dan berchenogaeth cyflogeion neu sydd wedi'u seilio ar aelodaeth. Felly, nid yw'r opsiynau eraill sydd i'w gweld yn Ffigur 4.3 yn berthnasol i fwyafrif helaeth yr ymatebwyr.

**Ffigur 4.3: Beth ydych chi'n ei wneud ag unrhyw warged/elw rydych chi'n ei wneud? Cymariaethau rhwng 2016, 2018 a 2020**




**Ffynhonnell:** Ymatebwyr Rhan 2 yr arolwg (n=362)


## 4.3 Arferion busnes

Tybir y daw rhan o werth cymdeithasol y sector o'i rôl fel cyflogwr teg sy'n cynnig cyflog ac amodau teg. Canfu'r arolwg fod 36 y cant o'r cyflogwyr a oedd wedi cyflogi cyflogeion newydd yn ystod y 12 mis diwethaf wedi crybwyll bod y rhain yn cynnwys unigolion a oedd yn ddi waith yn syth cyn ymgymryd â'r swydd, sy'n dangos rôl y sector mewn cynnig cyfleoedd cyflogaeth i unigolion sydd ymhellach o'r farchnad lafur. Ar ben hynny, mae'r data'n awgrymu bod busnesau cymdeithasol yn gyflogwyr lleol da, gyda 69 y cant o weithlu'r busnesau yn byw o fewn 10 milltir o'u gweithle, sef cynnydd o gymharu â 57 y cant yn 2018.

Canfuwyd hefyd fod 68 y cant o fusnesau cymdeithasol yn talu'r Cyflog Byw[11] i'r holl staff, sydd ychydig yn is na ffigur cyfwerth SEUK yn 2019 (76 y cant) a'r hyn a ganfuom yn 2018 (a oedd hefyd yn 76 y cant). Gallai hyn fod o ganlyniad i'r gwahaniaethau o ran samplu, gyda chyfradd uwch o fusnesau llai yn yr ymarfer hwn.

[11] Adeg yr arolwg, y gyfradd yn y DU (fel y'i diffinnir gan Living Wage Foundation) oedd £9.30 yr awr.

**Ffigur 4.4: Unigolion a gyflogwyd dros y 12 mis diwethaf – cymariaethau rhwng 2016, 2018 a 2020**





**Ffynhonnell:** Ymatebwyr Rhan 2 yr arolwg sydd â chyflogeion (n=248)

## 4.3.1 Gwirfoddoli

Mae busnesau cymdeithasol hefyd yn adnabyddus am gynnig cyfleoedd i bobl drwy wirfoddoli, er yr ymddengys y bu gostyngiad o ganlyniad i'r pandemig. Canfu'r arolwg fod 52 y cant wedi crybwyll nad oedd o leiaf rai gwirfoddolwyr yn gallu gweithio yn ystod y pandemig, o gymharu ag 11 y cant yn unig a grybwyllodd fod mwy o weithgarwch gwirfoddol (sy'n cael ei drafod yn fanylach yn adran 5.2).

Mae'r dadansoddiad o samplau cyfatebol yn dangos y bu gostyngiad yn nifer y gwirfoddolwyr ymhlith 131 o'r busnesau a gwblhaodd yr arolwg yn 2016, 2018 a 2020. Hyd at 2018, roedd gan y busnesau hyn 24 o wirfoddolwyr yr un, ar gyfartaledd; fodd bynnag, gostyngodd hyn i 21 o wirfoddolwyr, ar gyfartaledd, yn 2020.

**Ffigur 4.5: Nifer y gwirfoddolwyr yn 2014, 2016 a 2018 (sampl gyfatebol)**




**Ffynhonnell:** Samplau cyfatebol (n=131)


Cynigiodd cyfanswm o 89 y cant o fusnesau cymdeithasol gyfleoedd gwirfoddoli yn 2020 sydd, mewn gwirionedd, yn gynnydd o gymharu â 2018 (86 y cant) a 2016 (83 y cant). Fodd bynnag, mae graddfa'r gwirfoddoli yn y sefydliadau hynny wedi gostwng, a chofnodwyd 20 o wirfoddolwyr yn 2020, ar gyfartaledd, o gymharu â 29 yn 2018 a 34 yn 2016.

Ar sail y data hwn, amcangyfrifir bod 36,000–47,500 o wirfoddolwyr yn y sector busnes cymdeithasol yng Nghymru.

## 4.3.2 Y Gymraeg

Am y tro cyntaf, archwiliodd yr arolwg arferion busnes yn ymwneud â'r Gymraeg hefyd, gan ddatgelu bod y mwyafrif helaeth yn cynnig gwasanaethau hanfodol drwy gyfrwng y Gymraeg (o leiaf i ryw raddau). Fodd bynnag, roedd grŵp cymharol fach o gyflogwyr (15 y cant) nad oeddent yn cynnig unrhyw ddarpariaeth Gymraeg o gwbl o ran staff, arwyddion na marchnata.

**Ffigur 4.6: Gwasanaethau busnes sy'n cael eu cynnig yn Gymraeg a Saesneg**




**Ffynhonnell:** Part 2 survey respondents (n=363)



Adran 05

# 5 Arferion busnes, masnachu a pherfformiad, a COVID-19

05

# 05 Arferion busnes, masnachu a pherfformiad, a COVID-19

Mae'r adran hon yn archwilio perfformiad masnachu, marchnadoedd cyfredol a dymunol, effaith COVID-19 a'r ymateb iddo, ynghyd â galluoedd a chyflawniadau busnesau.

## Crynodeb o'r adran

- Bu cyfradd gyson o dwf o 2016 hyd 2019, cyn iddi wastatáu hyd at yr adeg yr arolygwyd yr ymatebwyr ar ddiwedd 2020/dechrau 2021 (pan roedd y pandemig yn effeithio ar yr economi)
- Mae COVID-19 wedi cael effaith sylweddol ar y sector, a gorfodwyd 63 y cant o'r ymatebwyr i atal masnachu, crybwyllodd 69 y cant ohonynt drosiant is na'r disgwyl, a chrybwyllodd 38 y cant ohonynt fod risg i'w cronfeydd wrth gefn – ymddengys bod y data'n awgrymu effaith niweidiol fwy ar y sector busnes cymdeithasol na'r economi yn ei chyfanrwydd
- Cymerwyd nifer o gamau, fel cynnig cymorth o bell a/neu ddatblygu eu marchnad ar-lein, a derbyniodd nifer sylweddol o'r ymatebwyr gyllid a chefnogaeth amrywiol gan y llywodraeth
- Mae busnesau wedi canolbwyntio ar gynnal eu gweithrediadau (yn hytrach na cheisio amrywiaethu eu marchnadoedd)
- Roedd 45 y cant o'r busnesau cymdeithasol o'r farn bod COVID-19 yn fygythiad mawr neu gritigol i'w hyfywedd ariannol dros y 12 mis nesaf (adeg yr arolwg), sy'n dangos risg barhaus
- Cynhaliwyd ffocws masnachol busnesau cymdeithasol a ganfuwyd yn yr ymarfer mapio blaenorol yn 2020, gyda 64 y cant ohonynt yn cynhyrchu o leiaf hanner eu hincwm drwy fasnachu
- Masnachu â'r cyhoedd fu'r brif ffynhonnell incwm i fusnesau cymdeithasol yn gyson er 2016, gan ddisodli cyllid grant fel y brif ffynhonnell incwm
- Ymddengys y bu mân ostyngiad mewn masnachu â'r sector cyhoeddus; fodd bynnag, mae'r data'n dangos fod y mwyafrif helaeth o'r busnesau nad ydynt yn masnachu â'r sector ar hyn o bryd yn dymuno gwneud hynny
- Roedd busnesau'n llai hyfedr mewn caffael, wedi'i ddilyn gan fanteisio ar gyllid allanol, marchnata, a marchnata/gwerthu ar-lein
- Ceir cydweithio helaeth yn y sector, gyda 67 y cant yn cymryd rhan mewn rhwydweithio sectoraidd, 57 y cant mewn cymorth rhwng cymheiriaid, a 42 y cant o'r rhai sy'n ymgymryd â chaffael cyhoeddus yn rhan o drefniadau cynnig ar y cyd

## 5.1 Twf busnesau

Mae dadansoddiad cyfatebol o'r 136 o fusnesau a gwblhaodd ein harolwg o 2016 hyd at 2020 yn awgrymu twf cymharol ymhlith busnesau presennol dros y ddwy flynedd diwethaf. Nifer gyfartalog gymedrig y cyflogeion yn y busnesau hyn yn 2016 oedd 7.6, a gynyddodd i 8.1 yn 2018 ac a gynyddodd eto, er yn arafach, i 8.4 yn 2020.[12] Roedd Rhan 2 yr arolwg hefyd yn cynnwys cwestiwn am nifer y bobl a gyflogwyd 12 mis yn ôl, a oedd yn ein galluogi i olrhain newidiadau o ran cyflogaeth o 2016 i 2018, 2019 a 2020 ar gyfer 88 o'r ymatebwyr a gwblhaodd Ran 2 ac a oedd yn gallu ymateb i bob un o'r cwestiynau hyn. Roedd y dadansoddiad hwn yn dangos cyfartaledd cymedrig o 7.9 o gyflogeion yn 2016, a gynyddodd i 8.8 yn 2018, cyn codi ar gyfradd debyg i 9.3 yn 2019, gyda'r twf yn arafu wedi hynny a 9.5 o gyflogeion, ar gyfartaledd, yn cael eu cofnodi yn 2020.

Ar ben hynny, wrth archwilio'r sampl gyffredinol, roedd cyfran y busnesau a grybwyllodd newid i'w lefelau cyflogaeth rhwng nawr a 12 mis yn ôl wedi'i rhannu'n gyfartal rhwng 20 y cant a grybwyllodd gynnydd, 20 y cant a grybwyllodd ostyngiad, a'r gweddill (60 y cant) a grybwyllodd na fu unrhyw newid o gwbl. At ei gilydd, roedd cynnydd mân iawn, sef 0.1 o gyflogeion, rhwng 2019 a 2020. Yn yr ymarfer mapio diwethaf (2018), canfuom gynnydd llawer mwy nodedig dros y 12 mis blaenorol, gyda 33 y cant yn crybwyll cynnydd yn nifer y cyflogeion o gymharu â 17 y cant yn unig a oedd yn dangos gostyngiad, ac roedd busnesau cymdeithasol wedi tyfu 0.8 o gyflogeion, ar gyfartaledd.

Gyda'i gilydd, mae'r data hwn yn dangos cyfradd gyson o dwf o 2016 hyd 2019, cyn iddi wastatáu hyd at yr adeg yr arolygwyd yr ymatebwyr ar ddiwedd 2020/dechrau 2021 (pan roedd y pandemig yn effeithio ar yr economi).

Mae Tabl 4.1 yn dangos tuedd debyg yn y data ar drosiant hefyd. Mae'r dadansoddiad o'r samplau cyfatebol yn dangos bod y twf rhwng 2018–2020 lai na hanner y lefel twf rhwng 2016–2018. (Ni chasglom ddata ar drosiant ar gyfer 2019; felly, ni allwn neilltuo newid yn ystod blwyddyn y pandemig.)

**Tabl 4.1: Dadansoddiad o'r samplau cyfatebol: newid mewn cyflogaeth a throsiant o 2016 hyd 2020**

| | Cyflogaeth | | Trosiant | |
|---|---|---|---|---|
| | Newid o 2016 i 2018 (n=131) | Newid o 2018 i 2020 (n=131) | Newid o 2016 i 2018 (n=43) | Newid o 2018 i 2020 (n=116) |
| **Gostyngiad** | 28% | 27% | 33% | 39% |
| **Wedi aros yr un fath** | 39% | 40% | 0% | 6% |
| **Cynnydd** | 33% | 34% | 67% | 55% |
| **Cyfartaledd** | 0.5 | 0.2 | £78,691.50 | £31,045.10 |

**Ffynhonnell:** Dadansoddiad cyfatebol (mae gwerth n i'w weld yn y tabl)


[12] Mae'r ffigurau hyn wedi'u talgrynnu.

## 5.2 COVID-19

Mae COVID-19 wedi cael effaith fawr ar y rhan fwyaf o agweddau ar yr economi. Mae'r data o'r ymchwil hon yn dangos bod yr effaith yn ymestyn i'r sector busnes cymdeithasol.

Roedd cyfanswm o 63 y cant o fusnesau cymdeithasol wedi atal masnachu ar ryw adeg yn ystod y pandemig. Roedd rhywfaint o amrywiant ar draws y sectorau gweithredol gwahanol; er enghraifft, roedd llawer mwy o grwpiau'r celfyddydau/hamdden wedi atal masnachu na sefydliadau ym maes iechyd a gofal. Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf o fusnesau ym mhob sector wedi atal masnachu ar ryw adeg.

**Ffigur 5.1: Canran y busnesau cymdeithasol a grybwyllodd eu bod wedi atal masnachu, yn ôl sector**





**Ffynhonnell:** Ymatebwyr Rhan 2 yr arolwg (n=363)

Yn ogystal, crybwyllodd 69 y cant o fusnesau fod eu trosiant yn llai nag y byddant yn ei ddisgwyl fel arfer yn ystod yr un cyfnod, gan gynnwys 38 y cant a grybwyllodd fod eu trosiant lai na hanner yr hyn y byddant yn ei ddisgwyl. Dim ond chwech y cant a grybwyllodd fod eu trosiant yn uwch na'r arfer.

Mae'n anodd cymharu sut mae COVID-19 wedi effeithio ar fusnesau cymdeithasol o gymharu â'r economi'n gyffredinol, gan fod arolygon y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS), fel yr Arolwg Mewnwelediadau ac Amodau Busnes (BICS) yn gofyn cwestiynau ychydig yn wahanol. Fodd bynnag, gellir gwneud rhai cymariaethau, ac mae'r rhain yn awgrymu y cafwyd effaith fwy niweidiol ar y sector busnes cymdeithasol yng Nghymru. Er enghraifft, gofynnodd y BICS gwestiwn tebyg yn ymwneud â'r effaith ar drosiant busnesau yn ei arolwg bob pythefnos. Mae'r data a gyflwynir yn Ffigur 5.2 (isod) yn dangos canlyniad BICS yn yr arolwg terfynol a gynhaliwyd ym mhob mis pan gynhaliwyd arolwg BCC. Mae'n dangos fod cyfran sylweddol uwch o fusnesau cymdeithasol yn crybwyll gostyngiad i'w trosiant na'r economi yn ei chyfanrwydd. Ar ben hynny, roedd y gyfran a oedd yn crybwyll gostyngiad o fwy na 50 y cant hefyd yn uwch o lawer ymhlith busnesau cymdeithasol, a oedd yn amrywio o 34 y cant i 55 y cant bob mis ar gyfer busnesau cymdeithasol yng Nghymru, ac o 12 y cant i 14 y cant yn unig ar gyfer busnesau yn y DU. Fodd bynnag, dylid nodi nad oedd data BICS ar gael ar lefel Cymru; felly, nid yw'n gymhariaeth union. Serch hynny, mae'n rhoi rhyw arwydd y cafwyd effaith fwy niweidiol ar fusnesau cymdeithasol.

**Ffigur 5.2: Canran y busnesau cymdeithasol yng Nghymru a grybwyllodd ostyngiad mewn trosiant o gymharu â busnesau yn y DU**




**Ffynhonnell:** Ymatebwyr Rhan 2 yr arolwg o fis Tachwedd i fis Mawrth (n=303) a'r busnesau a arolwg yn y BICS yn ystod yr un cyfnod; nid yw'r data hwn yn cynnwys ymatebion 'ddim yn gwybod'


Gofynnwyd cwestiwn arall, mwy manwl am y ffyrdd gwahanol roedd COVID-19 wedi effeithio ar fusnesau, sydd i'w gweld yn Ffigur 5.3 isod.  Cafodd y mwyafrif helaeth o fusnesau brofiad o waith a/neu ddigwyddiadau arfaethedig a gafodd eu gohirio neu eu canslo, tra crybwyllodd 38 y cant o fusnesau risg i'w cronfeydd wrth gefn, a allai peri risg i gynaliadwyedd eu sefydliad yn y tymor hwy.

Mae'r data hefyd yn rhoi cipolwg ar rôl bwysig y sector o ran mynd i'r afael â'r pandemig, gyda 29 y cant o fusnesau'n crybwyll galw cynyddol am eu gwasanaethau (gan gynnwys 41 y cant o sefydliadau iechyd a gofal).  Fodd bynnag, arweiniodd y galw cynyddol hwn, ynghyd ag analluGwirfoddolwyr i weithio o fewn y cyfyngiadau yn ymwneud â'r pandemig (fel y crybwyllwyd gan 52 y cant o'r ymatebwyr), at gapasiti gweithredol llai i 52 y cant o fusnesau.

Gofynnwyd cwestiwn tebyg i'r sector menter gymdeithasol yn yr Alban ym mis Awst 2020, a ddangosodd ganlyniadau tebyg.  Fodd bynnag, mae'r canlyniadau'n awgrymu y gallai'r sector yng Nghymru fod â rôl fwy gweithredol yn yr ymateb, gyda mwy o fusnesau'n crybwyll galw cynyddol (29 y cant o gymharu â 13 y cant yn yr Alban), a mwy yn crybwyll capasiti llai (52 y cant o gymharu â 34 y cant yn yr Alban).

Eto, roedd rhai gwahaniaethau rhwng sectorau, er bod yr effeithiau niweidiol yn gorbwyso unrhyw gyfleoedd o bell ffordd, hyd yn oed ar gyfer y sectorau mwyaf gweithgar yn ystod y pandemig; er enghraifft, hyd yn oed ym maes iechyd a gofal, crybwyllodd 68 y cant o fusnesau cymdeithasol eu bod wedi colli incwm o fasnachu.

**Ffigur 5.3: Effaith COVID-19 ar fusnesau cymdeithasol**




**Ffynhonnell:** Ymatebwyr Rhan 2 yr arolwg (n=363)

Cymerodd busnesau cymdeithasol nifer o gamau i addasu eu gwasanaethau a lleddfu rhywfaint o'r pwysau a achoswyd gan y pandemig. Addasodd hanner y busnesau eu harlwy i gynnig cymorth o bell, tra'r oedd yr ymatebwyr wedi'u rhannu bron yn gyfartal rhwng y rhai a wnaeth addasiadau eraill i'w gwasanaethau, a'r rhai a ddaliodd ati yn ôl yr arfer, ond drwy gadw pellter cymdeithasol, tra canolbwyntiodd tuag un o bob pump o'r busnesau ar ddatblygu eu marchnad ar-lein. Roedd busnesau yn yr Alban yn llai tebygol o fod wedi cynnig cymorth o bell (43 y cant o gymharu â 50 y cant yng Nghymru) ac addasu eu gwasanaethau mewn ffyrdd eraill (31 y cant o gymharu â 46 y cant yng Nghymru), sydd eto'n awgrymu rôl fwy gweithredol yn y sector busnes cymdeithasol yng Nghymru o ran yr ymateb i'r pandemig.


Manteisiodd nifer sylweddol o fusnesau ar y cyllid a'r cymorth amrywiol gan y llywodraeth, gyda bron i hanner yn manteisio ar grantiau Llywodraeth Cymru. Ymddengys bod busnesau cymdeithasol wedi gwneud mwy o ddefnydd o fenthyciadau'r llywodraeth. Roedd y BICS a gynhaliwyd hyd at 18 Ebrill 2021 yn dangos bod 35 y cant o fusnesau yn y DU wedi cael benthyciadau neu drefniadau ariannol a gefnogwyd gan y llywodraeth (heb gynnwys ymatebion 'ddim yn gwybod'). Eto, mae hyn yn gyson â chanfyddiadau eraill, sy'n awgrymu bod y pandemig wedi cael effaith fwy niweidiol ar fusnesau cymdeithasol, ac felly bod angen mwy o gymorth arnynt.

Mae'r Cynllun Ffyrlo wedi cynnig cymorth hanfodol hefyd, gyda 37 y cant o fusnesau cymdeithasol yn defnyddio'r cynllun, tra mae'r data hefyd yn dangos y rhoddwyd 24 y cant o'r holl gyflogeion ar ffyrlo, gan ddangos graddfa'r busnesau a fanteisiodd ar y cynllun. Fodd bynnag, mae hyn ychydig yn is na'r ffigur cyfwerth ar gyfer yr holl gyflogeion yng Nghymru. Ar sail yr hawliadau a wnaed erbyn 14 Ebrill, dywed ONS fod 466,300 o gyflogeion yng Nghymru wedi'u rhoi ar ffyrlo.[13] Mae hyn yn gyfwerth â 32 y cant o'r holl bobl mewn cyflogaeth ar 31 Rhagfyr 2020.[14]

Roedd gwahaniaethau sylweddol yn y sector, gydag iechyd a gofal (85 y cant) ac addysg (71 y cant) yn fwy tebygol o lawer o gynnig cymorth o bell, tra mai dim ond 40 y cant o fusnesau'r celfyddydau/hamdden a chanolfannau cymunedol a wnaeth hynny. Ar ben hynny, crybwyllodd 71 y cant o sefydliadau iechyd a gofal eu bod wedi parhau i weithredu'n ôl yr arfer, o gymharu â 30–40 y cant yn unig o'r sectorau eraill. Roedd cyfran y cyflogeion a roddwyd ar ffyrlo yn amrywio hefyd, o 12 y cant ym maes addysg, i 66 y cant yn y celfyddydau a hamdden.

[13] https://www.gov.uk/government/statistics/coronavirus-job-retention-scheme-statistics-6-may-2021
[14] https://statswales.gov.wales/Catalogue/Business-Economy-and-Labour-Market/People-and-Work/Employment/Persons-Employed/peopleinemployment-by-area-occupation

**Ffigur 5.4: Camau a gymerwyd gan fusnesau cymdeithasol er mwyn ymateb i'r pandemig**




**Ffynhonnell:** Ymatebwyr Rhan 2 yr arolwg (n=363)

Yn gadarnhaol, dim ond chwech y cant a grybwyllodd eu bod wedi dileu swyddi staff, ac roedd y cyfanswm a grybwyllwyd yn yr arolwg yn cyfrif am ddau y cant o'r holl gyflogeion. Dylid nodi, er nad oes unrhyw ddata y gellir ei ddefnyddio i gymharu busnesau cymdeithasol â'r economi gyffredinol yn uniongyrchol, canfu'r Ffederasiwn Busnesau Bach (FSB) fod gan un o bob pump o gwmnïau gyfrif pennau llai yn y tri mis yn arwain at fis Rhagfyr.[15] Mae Arolwg y Llafurlu hefyd yn awgrymu bod dileu swyddi wedi cyrraedd uchafbwynt yng Nghymru yn y chwarter yn arwain at fis Tachwedd 2020, gydag amcangyfrif o 16,000 o swyddi wedi'u dileu. (Cyn y pandemig, nid oedd y lefel hon wedi bod yn uwch na 10,000 ers y chwarter yn arwain at fis Mawrth 2016.[16]) Fodd bynnag, ymddengys bod busnesau cymdeithasol wedi gallu defnyddio'r Cynllun Ffyrlo a mathau eraill o gymorth i osgoi colledion pellach.

Yn fwy pryderus, adeg yr arolwg, roedd 31 y cant o'r ymatebwyr o'r farn bod y pandemig yn peri bygythiad mawr neu gritigol i hyfywedd ariannol eu busnes dros y tri mis nesaf.


[15] At least 250,000 UK small businesses set to fold without further help, new study warns | FSB, The Federation of Small Businesses.
[16] https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2021-01/key-economic-statistics-january-2021-402.pdf




Gofynnwyd cwestiwn gwahanol ond tebyg yn y BICS, lle y crybwyllodd 89 y cant o fusnesau fod ganddynt hyder uchel (48 y cant) neu gymedrol (41 y cant) y byddant yn goroesi'r tri mis nesaf, tra'r oedd gan 11 y cant hyder isel (wyth y cant) neu ddim hyder (dau y cant) (heb gynnwys ymatebion 'ddim yn gwybod'). Felly, ymddengys bod busnesau cymdeithasol yn fwy tebygol o amgyffred bygythiad uniongyrchol o'r pandemig o ran eu hyfywedd.

Gofynnom am deimladau dros gyfnodau hwy hefyd, a ddangosodd hyd yn oed mwy o bryder dros gyfnod o chwe mis (gyda 40 y cant yn crybwyll bygythiad mawr neu gritigol), a mwy eto dros gyfnod o 12 mis (45 y cant). Nid yw'n ymddangos bod hyn wedi newid yn sylweddol dros y cyfnod o bum mis pan roedd yr arolwg ar agor, gydag ymatebwyr ym mis Tachwedd a mis Rhagfyr yr un mor debygol, yn gyffredinol, o fynegi'r pryder hwn â'r rhai a ymatebodd rhwng mis Chwefror a mis Ebrill.


**Ffigur 5.5: Bygythiad gan COVID-19 i hyfywedd ariannol busnesau dros gyfnod o 3 mis, 6 mis a 12 mis**




**Ffynhonnell:** Ymatebwyr Rhan 2 yr arolwg (n=360)

Mae'n debygol bod y pryder hwn wedi'i seilio ar ofnau'n ymwneud â thon newydd y pandemig a chymorth gan y llywodraeth yn dod i ben, yn enwedig y Cynllun Ffyrlo (a fydd yn dod i ben ym mis Medi 2021 erbyn hyn). Gellir ei esbonio hefyd â'r niwed a wnaed eisoes i hyfywedd busnesau, gyda 38 y cant o'r ymatebwyr yn mynegi risg i'w cronfeydd wrth gefn (fel yr amlinellwyd yn flaenorol). Mae croesdablu'r ymatebwyr sy'n mynegi'r risg hon i'w cronfeydd wrth gefn (ynghyd â'u lefelau bygythiad dros gyfnod o dri mis, chwe mis a 12 mis) yn dangos cydberthyniad (gweler Ffigur 5.6 isod).


### Ffigur 5.6: Cyfran y busnesau sy'n crybwyll bygythiad mawr neu gritigol i'w hyfywedd ariannol o gymharu â'r busnesau sy'n crybwyll risg i'w cronfeydd wrth gefn




**Ffynhonnell:** Ymatebwyr Rhan 2 yr arolwg a grybwyllodd risg i'w cronfeydd wrth gefn (n=134)

Wrth edrych ymhellach i'r dyfodol, roedd y mwyafrif helaeth o fusnesau'n disgwyl i'w trosiant a'u helw gynyddu dros y 2–3 blynedd nesaf. Mae hyn yn drawiadol o debyg i'r gyfran a fynegodd hyder o ran twf yn yr astudiaeth flaenorol, gyda 72 y cant o'r rhai y cyfwelwyd â nhw yn 2018 yn disgwyl i'w trosiant gynyddu dros 2–3 blynedd, a 67 y cant yn disgwyl yr un peth o ran eu helw hefyd. Er bod busnesau'n fwy cadarnhaol ynghylch eu rhagolygon tymor hwy, dylem ddisgwyl gweld lefelau uwch o hyder na'r rhai a welwyd mewn ymarferion blaenorol o bosibl, o ystyried bod yr economi'n dechrau cyfnod adfer.

### Ffigur 5.7: Disgwyliadau o ran twf




**Ffynhonnell:** Ymatebwyr Rhan 2 yr arolwg (n=363)


I gloi, tybir bod y pandemig wedi cael effaith sylweddol ar y sector, gyda'r mwyafrif helaeth o fusnesau wedi gorfod atal masnachu a cholli gwaith ac incwm. Fodd bynnag, mae busnesau wedi defnyddio'r darpariaethau cymorth amrywiol, sef y Cynllun Ffyrlo a chymorth grant Llywodraeth Cymru yn bennaf, a (thrwyddynt) wedi gallu cynnal eu lefelau staff a throsiant, i raddau helaeth. Mae'n ymddangos mai effaith y pandemig fu gohirio twf busnesau, yn hytrach nag arwain at ddirywiad. Fodd bynnag, mae pryderon ynghylch hyfywedd ariannol busnesau a rhybuddion posibl o ran y risg i gronfeydd wrth gefn (fel yr amlygwyd gan gyfran fawr o fusnesau). O ran cyd-destun, crybwyllwyd y risg hon i gronfeydd wrth gefn gan gyfran fawr o fusnesau yn adroddiad Menter Gymdeithasol yr Alban hefyd, gyda 45 y cant yn crybwyll 'risg hirdymor i gronfeydd wrth gefn elusennau' a 41 y cant yn crybwyll risg byrdymor, o gymharu â 38 y cant a grybwyllodd risg i gronfeydd wrth gefn yng Nghymru.

## 5.3 Patrymau masnachu

Canfu ymarfer mapio 2018 fod y sector yng Nghymru yn dod yn fwy aeddfed ac yn canolbwyntio mwy ar fasnachu, fel y dangoswyd gan gyfran yr incwm a gynhyrchir drwy weithgarwch masnachu h.y. incwm a gynhyrchir drwy nwyddau a gwasanaethau yn hytrach na thrwy dderbyn grantiau neu roddion. Y ffocws masnachol hwn yw'r hyn sy'n gwahaniaethu busnesau cymdeithasol oddi wrth sefydliadau eraill yn y trydydd sector.

Mae'r data yn yr arolwg hwn, fel y dangosir yn Ffigur 5.8 isod, yn datgelu lefel uchel debyg o weithgarwch masnachu, gyda 64 y cant yn cynhyrchu o leiaf hanner eu hincwm drwy fasnachu, o gymharu â 67 y cant yn 2018. Er bod hyn ychydig yn is na'r ymarfer blaenorol, gellir esbonio hyn â'r busnesau llai yn y sampl, o gymharu â'r rhai mewn blynyddoedd blaenorol. Ar ben hynny, gallai fod yn gysylltiedig â'r cynnydd yn y defnydd o grantiau wrth ymateb i'r pandemig.

**Ffigur 5.8: Canran yr incwm a gynhyrchwyd drwy weithgareddau masnachu yn 2014, 2016 a 2018 (sampl gyffredinol)**




**Ffynhonnell:** Ymatebwyr Rhan 2 yr arolwg (n=357)


Mae'r dadansoddiad o'r sampl gyfatebol yn cadarnhau'r patrwm hwn, a dim ond mân gynnydd sydd rhwng 2016 a 2018 o ran cyfran yr incwm a gynhyrchwyd drwy fasnachu, tra'r oedd yn union yr un fath yn 2018 a 2020.

## 5.3.1 Ffynonellau incwm

Canfu'r ymarfer mapio blaenorol duedd o fusnesau'n cynhyrchu incwm drwy ffynonellau incwm mwy amrywiol, sy'n awgrymu bod gweithgarwch masnachu wedi ehangu. Cynhaliwyd hyn yn 2020, gyda chyfrannau tebyg yn cynhyrchu incwm drwy'r ffynonellau incwm gwahanol a restrir yn Ffigur 5.9. Ar ben hynny, mae'r data'n awgrymu y cynhaliwyd ffocws masnachol busnesau cymdeithasol hyd at 2020, ac y bu newid sylweddol yn y sector er 2014 (pan roedd cyllid grant yn brif ffynhonnell incwm). Er 2016, masnachu a'r cyhoedd fu'r brif ffynhonnell incwm i fusnesau cymdeithasol yn gyson.

Roedd masnachu â'r sector cyhoeddus yn sylweddol uwch yn 2018 nag yn 2016 ac, eto, mae'n uwch eleni nag y canfuom yn 2016, er ei fod islaw'r lefel a ganfuwyd yn 2018. Mae'r lefel masnachu â'r sector cyhoeddus ymhell islaw'r hyn a grybwyllwyd yn adroddiad 2019 SEUK (32 y cant yng Nghymru o gymharu â 47 y cant ar draws y DU). Yn ddiddorol, roedd y gyfran a grybwyllodd hyn ar draws y DU yn is na'r hyn a grybwyllwyd yn adroddiad 2017 SEUK hefyd (54 y cant), sy'n awgrymu efallai y bu llai o gyfleoedd caffael i fusnesau cymdeithasol ar draws y DU dros y ddwy flynedd diwethaf.


**Ffigur 5.9: Ffynonellau incwm yn 2016, 2018 a 2020 (sampl gyffredinol)**




**Ffynhonnell:** Ymatebwyr Rhan 1 yr arolwg (n=496)

Mae'r dadansoddiad cyfatebol yn datgelu patrwm tebyg i'r hyn a welwyd yn y siart blaenorol. Mae'n dangos bod 41 y cant yn masnachu â'r sector cyhoeddus, sy'n uwch na'r 28 y cant a oedd yn gwneud hynny yn 2016, er bod y gyfran hon ychydig yn is nag yn 2018. Ar ben hynny, bu cynnydd yn y nifer sy'n manteisio ar grantiau'r llywodraeth, sydd i'w ddisgwyl o ystyried y darpariaethau cymorth ariannol amrywiol a oedd ar gael i gefnogi busnesau yn ystod y pandemig.


**Ffigur 5.10: Ffynonellau incwm yn 2016, 2018 a 2020 (sampl gyfatebol)**




**Ffynhonnell:** Sampl gyfatebol (n=101)

Am y tro cyntaf, gofynnwyd i'r busnesau hynny nad oeddent yn cynhyrchu incwm drwy'r ffynonellau amrywiol hynny a hoffent fanteisio ar y marchnadoedd hynny yn y dyfodol. Mae Ffigur 5.11 yn datgelu bod awydd ymhlith busnesau cymdeithasol i fanteisio ar y marchnadoedd hynny nad ydynt yn masnachu â nhw ar hyn o bryd. Mae'r dadansoddiad yn awgrymu bod 83 y cant o fusnesau cymdeithasol naill ai'n masnachu â'r sector cyhoeddus ar hyn o bryd, neu yr hoffent fanteisio ar y farchnad honno, sy'n awgrymu bod digon o alw i lunwyr polisi ddefnyddio caffael i gefnogi twf y sector busnes cymdeithasol.

**Ffigur 5.11: Marchnadoedd cyfredol a dymunol**





**Ffynhonnell:** Ffynhonnell: Ymatebwyr Rhan 1 yr arolwg lle rhoesant ateb (n-value shown in chart)

## 5.3.2 Marchnadoedd daearyddol

Gofynnwyd i'r ymatebwyr sawl awdurdod lleol yng Nghymru mae eu sefydliad yn darparu gwasanaethau/cynhyrchion ar eu cyfer, er mwyn nodi maint y farchnad ddaearyddol sy'n cael ei gwasanaethu.  Mae'r data'n awgrymu na fu llawer o newid yng nghyrhaeddiad daearyddol busnesau cymdeithasol er 2016, gyda'r rhan fwyaf ohonynt (61 y cant) yn gweithredu mewn un awdurdod lleol yn unig, tra mae 18 y cant yn gweithredu ym mron pob awdurdod lleol yng Nghymru.

**Ffigur 5.12: Nifer yr awdurdodau lleol y gweithredir ynddynt – cymhariaeth rhwng 2016, 2018 a 2020 (sampl gyffredinol)**





**Ffynhonnell:** Ymatebwyr Rhan 1 yr arolwg (n=502)

Crybwyllodd 14 y cant eu bod yn masnachu ag ardaloedd eraill yn y DU, sy'n debyg i'r hyn a ganfuwyd mewn ymarferion blaenorol (16 y cant yn 2018 ac 13 y cant yn 2016).  Ni fu llawer o dystiolaeth o newid yn y gyfran sy'n crybwyll eu bod yn allforio er 2016 ychwaith, sy'n cyfrif am bump y cant yn unig yn 2020, sydd ond ychydig bach yn wahanol i'r wyth y cant a ganfuwyd yn 2018 a'r pedwar y cant a ganfuwyd yn 2016.  Ymddengys bod hyn ymhell islaw cyfartaledd y DU, gydag 13 y cant yn crybwyll eu bod yn allforio yn adroddiad 2017 SEUK (ni ddarparwyd ffigur ar gyfer hyn yn adroddiad 2019), tra mae 28 y cant o fentrau cymdeithasol yn Llundain yn allforio.

## 5.4 Galluoedd busnesau

Gofynnwyd i ymatebwyr i'r arolwg sgorio galluoedd eu busnesau eu hunain ar draws ystod o arferion busnes gwahanol ar raddfa o 1 i 5 (lle mae 1 yn wael iawn a 5 yn gryf iawn).  Mae'r sgôr gymedrig a roddwyd ar gyfer pob un o'r meysydd hyn i'w gweld yn y siart isod, ac mae'n datgelu bod galluoedd hunangofnodedig busnesau yn gyffredinol gyson â'r rheiny mewn blynyddoedd blaenorol.

**Ffigur 5.13: Sgorau cyfartalog cymedrig ar gyfer galluoedd busnesau ar raddfa o 1 i 5 (lle mae 1 yn wael iawn a 5 yn gryf iawn) – cymariaethau rhwng 2016, 2018 a 2020**




**Ffynhonnell:** Ymatebwyr Rhan 2 yr arolwg, heb gynnwys atebion 'ddim yn gwybod' a 'ddim yn berthnasol' (mae gwerth n i'w weld yn y siart)

Ystyriwyd dau faes gallu busnes newydd yn yr arolwg hwn, sef gwerthu a marchnata ar-lein, tra archwiliom gyfran y busnesau a roddodd sgorau uchel iddyn nhw'u hunain (h.y. 4 neu 5 allan o 5) hefyd mewn perthynas â'r galluoedd gwahanol hyn.


Eto, mae'r data'n dangos yr hyder mwyaf mewn meysydd fel rheoli arian a rheoli pobl, gyda thros 70 y cant yn rhoi sgôr uchel i'r rhain, tra'r oedd busnesau'n llai hyfedr mewn caffael (gyda 35 y cant yn unig yn rhoi sgôr uchel). Gallai'r diffyg gwybodaeth hwn esbonio pam nad yw llawer o'r busnesau a hoffai fasnachu â'r sector cyhoeddus wedi gwneud hynny hyd yn hyn, ac mae'n cynrychioli prinder sgiliau amlwg yn y sector.

Yn ogystal, roedd busnesau'n teimlo'n llai galluog o ran manteisio ar gyllid ad-daladwy o gymharu â chyllid grant. Hyd at y pandemig, bu pwyslais ar ddarparu mwy o ddewisiadau o ran cyllid ad-daladwy er mwyn ceisio annog busnesau i beidio â dibynnu ar grantiau. Os bydd y patrwm hwn yn parhau pan ddaw cymorth sy'n gysylltiedig â'r pandemig i ben, gallai'r diffyg gallu hwn o ran manteisio ar gyllid ad-daladwy gynrychioli rhwystr i'r sector. Ar ben hynny, mae'n werth nodi bod llawer llai na hanner y rhai y gofynnwyd y cwestiwn hwn iddynt wedi rhoi sgôr ar gyfer manteisio ar gyllid ad-daladwy, gyda'r mwyafrif ohonynt yn datgan nad oedd yn berthnasol i'w busnesau.




Yn olaf, mae'r data'n dangos mai marchnata yw un o'r meysydd lleiaf hyfedr o hyd, tra'r oedd busnesau'n llai hyfedr fyth mewn marchnata a gwerthu ar-lein.  Wrth i'r farchnad ddigidol ddod yn fwyfwy pwysig yn yr economi, ac wrth i'r pandemig wthio tueddiadau defnyddwyr i'r cyfeiriad hwn, mae'r diffyg gwybodaeth yn y maes hwn yn cynrychioli bwlch amlwg arall o ran sgiliau.

**Ffigur 5.14: Sgorau cyfartalog cymedrig ar gyfer galluoedd busnesau a'r % sy'n rhoi sgôr o 4 neu 5 iddyn nhw'u hunain ar raddfa o 1 i 5 (lle mae 1 yn wael iawn a 5 yn gryf iawn)**




**Ffynhonnell:** Ymatebwyr Rhan 2 yr arolwg, heb gynnwys atebion 'ddim yn gwybod' a 'ddim yn berthnasol'

# 5.5 Cyflawniadau


## 5.5.1 Trosolwg o gyflawniadau

Holwyd ymatebwyr am ystod o ddangosyddion yn ymwneud â datblygiad eu busnes, a ph'un a oeddent wedi cyflawni unrhyw rai a restrwyd.

Ymddengys bod y data'n enghreifftiol o'r hinsawdd gyfredol, lle mae busnesau wedi canolbwyntio ar gynnal eu gweithrediadau a heb geisio amrywiaethu – mae'r gyfran sy'n amrywiaethu i sectorau eraill ac/neu'n ehangu'n ddaearyddol yn is na blynyddoedd blaenorol.  Mae'n awgrymu gan fod busnesau wedi gallu manteisio ar gymorth grant i'w cefnogi yn ystod y pandemig, na fu'n rhaid iddynt amrywiaethu.

Ceir dirywiad llym yng nghyfran y busnesau sy'n ceisio ehangu, o gymharu â blynyddoedd blaenorol, ac mae llai ohonynt wedi denu cwsmeriaid newydd.  Nid yw'r ddau beth hyn yn syndod o ystyried y cyd-destun cyfredol.

**Ffigur 5.15: Wrth feddwl am y 12 mis diwethaf, a yw eich sefydlu wedi [...]?  Cymhariaeth rhwng 2016, 2018 a 2020**[17]




**Ffynhonnell:** Ymatebwyr Rhan 2 yr arolwg (n=363)

[17] Mae manteisio ar gyllid grant a chyllid ad-daladwy yn gategorïau newydd yn yr arolwg.


## 5.5.2 Datblygu marchnadoedd newydd

### Cwsmeriaid newydd

Er bod llai o fusnesau'n crybwyll hyn nag mewn blynyddoedd blaenorol, y prif gyflawniad a ddyfynnwyd gan ymatebwyr oedd denu cwsmeriaid newydd.

Mae Ffigur 5.16 yn dangos sut y dywedodd y busnesau hyn eu bod wedi denu cwsmeriaid newydd, gan amlygu pwysigrwydd argymhellion cwsmeriaid ac enw da busnesau fel modd o wneud hynny. Ymddengys y bu rhwydweithio'n dull pwysicach ar gyfer denu cwsmeriaid newydd yn 2020, tra yr ymddengys y gwnaed llai o ddefnydd o'r cyfryngau/hysbysebion, efallai o ganlyniad i dynhau adnoddau oherwydd y pandemig. Nid oes unrhyw newid sylweddol o ran marchnata digidol, sy'n syndod wrth ystyried y pwyslais cynyddol ar hyn dros y flwyddyn ddiwethaf, sy'n dangos y prinder sgiliau yn y maes hwn eto, o bosibl.

**Ffigur 5.16: Dulliau o ddenu cwsmeriaid neu gleientiaid newydd**




**Ffynhonnell:** Ymatebwyr Rhan 2 yr arolwg a oedd wedi denu cwsmeriaid/cleientiaid newydd (n=218)

### Ardaloedd ehangu

Dim ond 13 y cant a oedd wedi ehangu i ardaloedd daearyddol newydd. Roedd hyn yn cynnwys manteisio ar farchnadoedd mewn awdurdodau lleol newydd yng Nghymru, yn bennaf. Roedd 41 y cant arall wedi ehangu i ardaloedd mewn rhannau eraill o'r DU, ynghyd ag 11 y cant a oedd wedi ehangu i ardaloedd newydd yn yr UE, ac 13 y cant i ardaloedd newydd mewn rhannau eraill o'r byd.


### 5.5.3 Manteisio ar gyllid ac arloesi

Mae'r data'n dangos mai manteisio ar grantiau oedd yr opsiwn dewisol o bell ffordd yn ystod y 12 mis diwethaf, gydag 54 y cant yn manteisio ar gyllid grant, o gymharu ag wyth y cant yn unig a fanteisiodd ar gyllid ad-daladwy, a phedwar y cant a fanteisiodd ar gyllid cymysg (h.y. cymysgedd o gyllid grant a chyllid ad-daladwy). Er bod hyn yn parhau'r duedd a welwyd ym mhob ymarfer mapio er 2014, mae'r cyd-destun dros y 12 mis diwethaf yn hollol wahanol, ac roedd mwy o gyllid ar gael i gefnogi busnesau yn ystod y pandemig.

Roedd tua phedwar o bob 10 o fusnesau a fanteisiodd ar gyllid wedi gwneud hynny i gefnogi eu gobaith o oroesi, a oedd yn adlewyrchu'r bygythiad a achoswyd gan y pandemig a phwysigrwydd y cymorth ariannol o ran helpu busnesau i oroesi.

Er bod y dewis o atebion i'r cwestiwn hwn yn wahanol yn 2020, cadwyd rhai o'r dewisiadau a gellir eu cymharu â'r rhai yn 2018. Mae hyn yn dangos, er bod mwyafrif y rhai a fanteisiodd ar gyllid yn 2018 wedi gwneud hynny ar gyfer prosiectau datblygu neu gynlluniau newydd, a ddefnyddiwyd yn aml i hwyluso twf, dyfynnodd llawer llai o fusnesau cyfalaf datblygu eleni (30 y cant o gymharu â 62 y cant). Eto, mae hyn yn gyson â'r thema sydd i'w gweld ar draws y data hwn, sef nad yw busnesau wedi ceisio tyfu nac amrywiaethu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf; yn hytrach, maent wedi ceisio cynnal eu gweithrediad/arlwy cystal ag y gallant. Mae'r un mor bwysig i nodi bod cyfran debyg o fusnesau ag mewn blynyddoedd blaenorol (52 y cant) wedi datblygu cynhyrchion/nwyddau newydd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, er y gallai hyn adlewyrchu'r gwaith a wnaed gan fusnesau i addasu eu harlwy mewn amgylchedd sy'n ddiogel o ran COVID-19, yn hytrach nag amrywiaethu eu marchnad.

**Figure 5.17: Diben arfaethedig cyllid**





**Ffynhonnell:** Ymatebwyr Rhan 2 yr arolwg a oedd wedi manteisio ar gyllid (n=200)

## 5.5.4 Cydweithio a chynnig ar y cyd

Mae Ffigur 5.18 yn cadarnhau nad yw'r rhan fwyaf o fusnesau'n cyflwyno tendrau ar gyfer gwaith sector cyhoeddus. Fodd bynnag, o'r rhai sy'n gwneud hynny, mynegodd 42 y cant eu bod wedi mynd i drefniadau cynnig ar y cyd (gan gynnwys 20 y cant sy'n gwneud hynny'n achlysurol ac 11 y cant sy'n gwneud hynny'n rheolaidd).

**Figure 5.18: Tendro ar gyfer gwaith sector cyhoeddus**




**Ffynhonnell:** Ymatebwyr Rhan 2 yr arolwg (n=359)

Yn ogystal â chynigion ar y cyd, canfu'r arolwg lefelau cryf o weithgarwch cydweithredol arall yn y sector. Mae'r rhan fwyaf o fusnesau (67 y cant) yn cymryd rhan mewn rhwydweithiau sector a chymorth rhwng cymheiriaid (57 y cant). Mae'r olaf yn cyfeirio at fentora neu gyfleoedd dysgu drwy raglenni a ddarperir gan asiantaethau cefnogi menter gymdeithasol sy'n gweithredu yng Nghymru.



# Adran 06
# **Heriau, anghenion cymorth a llwybrau twf**

06

# Heriau, anghenion cymorth a llwybrau twf

Mae'r adran hon yn archwilio'r prif rwystrau a amlygwyd gan fusnesau sy'n eu hatal rhag tyfu ac yn atal eu gallu i gyflawni eu hamcanion cymdeithasol. Ar ben hynny, mae'n trafod y bylchau o ran sgiliau a amlygwyd yn y sector, a'r cymorth sydd ei angen i fynd i'r afael â nhw.



## Crynodeb o'r adran

- Crybwyllodd y mwyafrif helaeth o fusnesau y bydd cyfyngiadau COVID-19 yn parhau i fod yn rhwystr rhag tyfu
- Ar wahân i'r cyfyngiadau hynny, manteisio ar gyllid grant yw'r rhwystr mwyaf cyffredin sy'n cael ei grybwyll o hyd, yn bennaf oherwydd nad oedd busnesau'n gwybod ble i chwilio am gyllid
- Mae'r rhan fwyaf o fusnesau'n ymwybodol o'r model cyllid cymysg a byddai ganddynt ddiddordeb mewn manteisio ar gronfa debyg
- Cyngor, gwybodaeth neu gymorth mentora yn ymwneud â chyllid (sut i ddod o hyd i gyllid priodol, yn bennaf) oedd y prif angen cymorth o grybwyllwyd
- Mae 30 y cant wedi profi, neu'n disgwyl profi, effaith o ganlyniad i Brexit, yn bennaf oherwydd i gyllid yr UE gael ei dynnu'n ôl
- Marchnata yw un o'r prif rwystrau o hyd ac, ar wahân i gyllid, dyma'r ail angen cymorth mwyaf cyffredin sy'n cael ei grybwyll
- Mae cymorth o ran marchnata digidol a chyfryngau cymdeithasol yn angen penodol
- Cymorth o ran caffael oedd un o'r anghenion mwyaf cyffredin a grybwyllwyd hefyd

## 6.1 Rhwystrau rhag tyfu

Yn yr un modd â'r ymarfer mapio blaenorol, gofynnwyd i'r ymatebwyr ddewis eu pedwar prif rwystr rhag cynaliadwyedd neu dwf. Nid yw'n syndod mai COVID-19 a'i gyfyngiadau cysylltiedig oedd y prif rwystr, o bell ffordd, a grybwyllwyd gan fusnesau, gyda 72 y cant yn crybwyll hyn. Yn fwy cadarnhaol, dim ond naw y cant oedd o'r farn y byddai gan ddefnyddwyr lai o hyder oherwydd y pandemig, sy'n awgrymu mai'r prif rwystr i lawer o fusnesau yw'r cyfyngiadau ac, wedi i'r rhain gael eu diddymu, y bydd defnyddwyr yn dychwelyd.


Ar wahân i faterion sy'n ymwneud yn benodol â COVID-19, manteisio ar gyllid (eto) yw'r rhwystr mwyaf cyffredin a grybwyllwyd, sy'n adlewyrchu'r ymarferion mapio blaenorol. Yn fwy penodol, tybir bod manteisio ar gyllid grant yn rhwystr. Mae'n werth nodi bod llawer llai o fusnesau wedi crybwyll bod hyn yn broblem yn 2020 nag yn 2018 (31 y cant o gymharu â 47 y cant); fodd bynnag, mae hyn yn debygol o fod oherwydd y cynnydd yn y grantiau a gynigiwyd yn ystod y pandemig, ac efallai na chaiff hyn ei gynnal wedi i'r cynigion hynny o gyllid ddod i ben.

Roedd diffyg adnoddau yn rhwystr ar gyfer tua thraean o fusnesau o hyd, a chrybwyllodd un o bob pump o fusnesau'r hinsawdd economaidd. Mae'r olaf yn is na'r disgwyl, o ystyried yr heriau economaidd a achoswyd gan y pandemig. Mae'n bosibl bod hyn yn adlewyrchu amseriad yr arolwg, a oedd yn cyd-daro â chyfnod o adferiad ar ôl ton gyntaf y pandemig.

Mae diffyg arbenigedd marchnata'n gymharol uchel hefyd, gyda 10 y cant yn crybwyll bod hyn yn rhwystr – sef cyfran debyg i 2018. Mae hyn yn gyson â'r canfyddiadau a gyflwynwyd yn gynharach yn yr adroddiad, a ddatgelodd mai marchnata ac, yn benodol, marchnata digidol oedd rhai o feysydd sgiliau llai hyfedr busnesau.

O ran y rhai a grybwyllodd 'arall', codwyd ystod eang o themâu heb lawer o gyffredinrwydd yn yr atebion. Cyfeiriodd sawl ymatebwr at arferion cyfnewidiol defnyddwyr, yn enwedig o ganlyniad i'r pandemig e.e. patrymau teithio ac effeithiau sut mae pobl yn defnyddio'r teledu ar sinemâu annibynnol. Yn ogystal, cyfeiriodd sawl ymatebwr at y diffyg lleoliad addas, tra crybwyllodd eraill broblemau o ran recriwtio.

### Ffigur 6.1: Rhwystrau hunangofnodedig rhag cynaliadwyedd neu dwf busnesau cymdeithasol





**Ffynhonnell:** Ymatebwyr Rhan 2 yr arolwg (n=363)

### 6.1.1 Manteisio ar gyllid

Roedd cwestiwn dilynol yn archwilio pam y crybwyllwyd manteisio ar gyllid fel rhwystr, ac mae'r canlyniadau i'w gweld yn Ffigur 6.2 isod. Mae ystod o resymau sy'n cynnwys materion yn ymwneud ag ymwybyddiaeth, sgiliau ac adnoddau. Mae'r rhesymau a grybwyllwyd yn sylweddol wahanol i'r hyn a grybwyllwyd yn 2018, ac mae'n debygol bod cyflwyno cyllid yn gysylltiedig â COVID-19 wedi cael effaith sylweddol ar yr ymatebion. Y prif fater yn 2018 oedd y math o gyllid a oedd yn cael ei gynnig, yn benodol y pwyslais ar gyllid ad-daladwy yn hytrach na chyllid grant. Fodd bynnag, dywedodd llawer llai o fusnesau fod hyn yn broblem yn 2020 (21 y cant o gymharu â 43 y cant yn 2018), gan y bu cymaint yn fwy o gyllid grant ar gael, yn ôl pob tebyg. Yn unol â hynny, mae'n ymddangos bod hyn wedi creu'r her gyferbyniol, sef bod cymaint o ddewisiadau ar gael fel bod busnesau'n ansicr ynghylch pa rai sydd fwyaf priodol iddynt a lle i chwilio am gynigion ariannol. Hefyd, mynegodd 27 y cant nad oedd ganddynt yr arbenigedd priodol i wneud cais.

**Ffigur 6.2: Rhesymau dros ddewis manteisio ar gyllid fel rhwystr – 2018 o gymharu â 2020**




**Ffynhonnell:** Ymatebwyr Rhan 2 yr arolwg a grybwyllodd fod manteisio ar gyllid yn rhwystr (n=119)

Holwyd busnesau am y model cyllid cymysg hefyd, a ddefnyddiwyd ar gyfer cronfeydd fel Cronfa Cydnerthedd y Trydydd Sector a'r Gronfa Tyfu Busnesau Cymdeithasol (h.y. cymysgedd o grantiau a benthyciadau), ac a allai ddod yn fwy cyffredin yn y dyfodol. Mae'r rhan fwyaf o fusnesau (55 y cant) yn ymwybodol o'r cronfeydd ac, lle maent yn ymwybodol, crybwyllodd y rhan fwyaf ohonynt (55 y cant) fod ganddynt ddiddordeb yn y model. Mae hyn er gwaethaf y ffaith mai pedwar y cant yn unig a fanteisiodd ar gyllid cymysg yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (gweler Ffigur 5.15), sy'n awgrymu bod cyfle da i gynyddu'r math hwn o arlwy fel dewis amgen i fusnesau sy'n awyddus i fanteisio ar gyllid grant.



## 6.1.2 Brexit

Dim ond 11 y cant o'r ymatebwyr a grybwyllodd fod Brexit wedi effeithio arnynt hyd yn hyn, er i 19 y cant arall grybwyll eu bod yn disgwyl effaith yn y dyfodol (sy'n dod â'r effaith ddisgwyliedig i 30 y cant) – nid oedd 64 y cant yn disgwyl unrhyw effaith, ac nid oedd chwech y cant yn gwybod.

Lle'r oedd busnesau wedi profi effaith neu'n disgwyl profi effaith, roedd yr esboniad mwyaf cyffredin yn ymwneud â chyllid yr UE yn cael ei dynnu'n ôl (gyda 42 y cant yn crybwyll hyn). Dyfynnodd llawer o fusnesau sy'n mewnforio nwyddau gostau mewnforio uwch, gydag 19 y cant o'r rhai sy'n profi/disgwyl effaith oherwydd Brexit yn crybwyll hyn. Er nad yw'r sector yn adnabyddus am allforio (pump y cant yn unig), dyfynnwyd y costau uwch a'r rheoliadau sy'n gysylltiedig ag allforion (naill ai ar eu cyfer nhw'u hunain neu'r sefydliadau maent yn eu cefnogi) gan naw y cant o'r busnesau sy'n profi/disgwyl profi effaith oherwydd Brexit. Roedd yr effeithiau eraill fel a ganlyn:


- Crybwyllodd 14 y cant nad oeddent yn gallu darparu gwasanaethau yn yr UE
- Amlygodd wyth y cant yr effaith anuniongyrchol ar yr economi ac ar incwm gwario pobl
- Crybwyllodd saith y cant fod llai o alw am eu gwasanaethau (nododd chwech y cant alw uwch)
- Roedd chwech y cant yn teimlo y byddai mwy o gystadleuaeth o ran manteisio ar gyllid grant
- Esboniodd tri y cant y byddai'n anoddach recriwtio staff a/neu wirfoddolwyr.

## 6.2 Bylchau o ran sgiliau ac anghenion cymorth

Gofynnwyd dau gwestiwn – sef un caeedig ac un penagored – ar ddiwedd yr arolwg i amlygu pa fath o gymorth a fyddai'n fwyaf buddiol i fusnesau. Efallai nad yw'n syndod, o ystyried bod manteisio ar gyllid yn cael ei amlygu'n rhwystr yn gyson, mai gwybodaeth a chyngor yn ymwneud â chyllid oedd yr opsiwn a ffafriwyd. Mae'r data a gyflwynwyd yn Ffigur 6.2 (uchod) yn awgrymu bod angen cymorth ar fusnesau yn ymwneud â gwahanol agweddau ar fanteisio ar gyllid, gan gynnwys nid yn unig sgiliau ysgrifennu cynigion, ond hefyd ymwybyddiaeth/dealltwriaeth o'r gwahanol gynigion am gyllid, lle i ddod o hyd iddynt a sut i asesu eu priodoldeb.

Byddai bron i draean o'r ymatebwyr yn gwerthfawrogi cymorth marchnata, sy'n gyson â chanfyddiadau blaenorol, lle y crybwyllwyd mai dyma oedd un o'r prif rwystrau a'r meysydd sgiliau llai hyfedr.

**Ffigur 6.3: Cymorth i fynd i'r afael â rhwystrau a achoswyd gan y pandemig (cwestiwn caeedig)**





**Ffynhonnell:** Ymatebwyr Rhan 2 yr arolwg (n=363)

Gofynnwyd cwestiwn penagored arall am anghenion cymorth yn gyffredinol (yn hytrach nag yn ymwneud â'r pandemig yn unig). Mae'r ymatebion hyn wedi'u codio ac maent i'w gweld yn Ffigur 6.4 isod.

Roedd yr ymatebion yn cynnwys cymysgedd o'r dull dewisol o gymorth ynghyd â themâu'r cymorth. Cymorth ariannol a marchnata oedd y prif themâu a amlygwyd (eto), ac ymhelaethodd busnesau ar y cyntaf drwy grybwyll bod angen dealltwriaeth well arnynt o'r cyllid sydd ar gael/yn briodol iddynt, ac roedd sylwadau am farchnata'n canolbwyntio ar farchnata digidol (cyfryngau cymdeithasol, gan mwyaf) yn bennaf. Roedd cefnogaeth gref i wasanaeth mentora, ac roedd llawer o'r ymatebwyr o blaid cael arbenigwr mewn cyllid neu farchnata, er enghraifft, i gyflwyno mentora un-i-un.

Cymorth yn ymwneud â chaffael oedd un o'r anghenion eraill mwyaf cyffredin a grybwyllwyd, sy'n adlewyrchu'r hyfedredd isel yn y maes hwnnw (fel yr amlygwyd yn gynharach yn yr adroddiad).

**Ffigur 6.4: Cymorth i fynd i'r afael â rhwystrau rhag cynaliadwyedd neu dwf (cwestiwn penagored – ymatebion wedi'u codio)**





**Ffynhonnell:** PYmatebwyr Rhan 2 yr arolwg (n=324)

## 6.3 Llwybrau twf

Gofynnwyd i'r 71 y cant o fusnesau a oedd yn disgwyl i'w trosiant gynyddu yn y 2–3 blynedd nesaf sut roeddent yn disgwyl cyflawni hyn. Yn yr un modd â blynyddoedd blaenorol, disgwyliwyd i'r ffyrdd mwyaf cyffredin o gyflawni'r twf hwn fod drwy ddenu cwsmeriaid neu gleientiaid newydd (68 y cant o'r ymatebwyr) a datblygu cynhyrchion a/neu wasanaethau newydd (48 y cant). Roedd y gyfran a grybwyllodd eu bod yn bwriadu lleihau costau er mwyn creu arbedion yn isel iawn, sef tri y cant yn unig, sy'n llai na'r hyn a grybwyllwyd yn 2018 (naw y cant) ac ymhell islaw'r 49 y cant a ganfuwyd yn adroddiad 2019 SEUK.

**Ffigur 6.5: Llwybrau twf busnesau – cymharu ymatebion 2018 a 2020**




**Ffynhonnell:** Ymatebwyr Rhan 2 yr arolwg a oedd yn disgwyl i'w trosiant gynyddu yn y 2–3 blynedd nesaf (n=238)




Adran 07

# Crynodeb o'r canfyddiadau

07

»

## 7.1 Cyflwr y sector

Canfu Cyfrifiad Mapio Busnesau Cymdeithasol 2018 sector a oedd yn tyfu, yn aeddfedu ac yn datblygu ffocws mwy masnachol, ac a oedd yn gwneud cyfraniad mwyfwy sylweddol i economi Cymru – gyda rhagolygon cadarnhaol ar gyfer twf yn y dyfodol. Mae'r ymchwil hon yn canfod bod y sector busnes cymdeithasol yn parhau i wneud cyfraniad cymdeithasol ac economaidd pwysig yng Nghymru, gyda hyd at 2,309 o fusnesau'n cyflogi hyd at 59,000 o bobl ac yn cynnig nifer debyg o gyfleoedd i wirfoddoli, ac yn creu gwerth o hyd at £3.8 biliwn. Er nad oes unrhyw amheuaeth fod y pandemig COVID-19 wedi cael effaith sylweddol ar y sector, mae hefyd wedi dangos gwydnwch syfrdanol, ac mae'n ymddangos bod effaith COVID-19 wedi oedi twf yn hytrach na'i ddirywio.

Gorfodwyd mwyafrif y busnesau i atal masnachu ac maent wedi cael profiad o golli incwm; fodd bynnag, mae nifer fawr ohonynt wedi manteisio ar y darpariaethau cymorth amrywiol, sydd wedi helpu i gynnal eu gweithrediadau. Yn gyffredinol, nid yw busnesau wedi ceisio amrywiaethu eu harlwy a'u marchnadoedd; yn hytrach, maent wedi ceisio cynnal eu gweithrediadau cystal ag y gallant, gyda rhai addasiadau i'w prosesau (e.e. cymorth o bell a datblygu eu marchnadoedd ar-lein). Mae'r ffaith nad yw busnesau wedi'u gorfodi i amrywiaethau (eto) yn amlygu'r gwydnwch a ddangoswyd yn wyneb y pandemig. Fodd bynnag, mae pryderon ynghylch hyfywedd ariannol parhaus busnesau a rhybuddion posibl bod y pandemig wedi peri risg i gronfeydd wrth gefn, gan effeithio ar gynaliadwyedd busnesau.

**Argymhelliad 1:** Dylai BCC fonitro'r effaith ar gronfeydd wrth gefn busnesau'n ofalus, ac felly eu cynaliadwyedd yn gyffredinol.

## 7.2 Perfformiad masnachu a rhwystrau rhag tyfu

Ymddengys y bu gweithgarwch sylweddol o ran busnesau newydd dros y ddwy flynedd diwethaf, sydd efallai'n gysylltiedig â phrosiect Dechrau Newydd Busnes Cymdeithasol Cymru. Bu'r gweithgarwch hwn yn arbennig o gyffredin yng ngogledd-ddwyrain Cymru mewn ardaloedd fel Sir Ddinbych a Wrecsam.

Mae data ar batrymau masnachu yn dangos y cynhaliwyd y lefel uwch o ffocws masnachol a welwyd yn 2018. Nid yw busnesau wedi ceisio ymuno â marchnadoedd newydd yn ystod y cyfnod hwn ac, o ganlyniad, ni fu unrhyw dwf mewn masnachu â'r sector cyhoeddus. Fodd bynnag, mae awydd cryf yn y sector i ddatblygu'r farchnad honno, er bod y rhagolygon o wneud hynny wedi'u rhwystro gan allu busnesau yn y maes hwnnw – sgoriwyd caffael fel y maes lleiaf hyfedr, ac roedd hefyd yn un o'r prif anghenion cymorth a amlygwyd yn yr arolwg.

**Argymhelliad 2:** Mae'r canfyddiadau'n awgrymu bod dyhead digonol i lunwyr polisi ddefnyddio caffael i gefnogi twf y sector busnes cymdeithasol. Yn yr un modd, mae manteisio ar gyfleoedd caffael cyhoeddus yn cynrychioli prinder amlwg o ran sgiliau, a dylai fod â ffocws priodol yn y ddarpariaeth cymorth barhaus ar gyfer y sector.

Ar wahân i'r heriau cyfredol a achoswyd gan y pandemig, manteisio ar gyllid yw'r prif rwystr arall rhag twf a chynaliadwyedd o hyd. Ychydig iawn o fusnesau sydd wedi manteisio ar gyllid ad-daladwy neu gyllid cymysg, a sgoriwyd y cyntaf fel ail faes lleiaf hyfedr busnesau (ar ôl manteisio ar gaffael cyhoeddus). Dyma'r prif angen cymorth a grybwyllwyd hefyd, ac mae tystiolaeth yn awgrymu bod angen cymorth penodol yn ymwneud â helpu busnesau i ddod o hyd i becynnau priodol sy'n bodloni eu hanghenion.

Er mai ychydig o fusnesau oedd wedi defnyddio cyllid cymysg, roedd ymwybyddiaeth dda ohono a diddordeb mewn manteisio ar gyfleoedd tebyg. O ystyried y canfyddiad cyson bod busnesau'n cwyno am brinder cyllid grant ac yn ymddangos yn gyndyn o fanteisio ar gyllid ad daladwy, gallai'r model cyllid cymysg gynnig pont bwysig rhwng y ddau.

**Argymhelliad 3:** Mae'r model cyllid cymysg yn dod yn nodwedd fwy amlwg o'r dirwedd cyllid e.e. drwy gronfeydd fel Cronfa Cydnerthedd y Trydydd Sector a'r Gronfa Tyfu Busnesau Cymdeithasol. Fodd bynnag, ychydig iawn o fusnesau sy'n manteisio arno, er gwaethaf yr ymwybyddiaeth dda ohono a'r diddordeb ynddo. Dylai fod ymgyrch barhaus i gynnig y model hwn fel modd i annog busnesau i symud oddi wrth gymorth grant.

Sgiliau marchnata, yn enwedig marchnata digidol a chyfryngau cymdeithasol, oedd y prif ddiffygion eraill a grybwyllwyd gan fusnesau, ac roeddent hefyd yn uchel ar restr y rhwystrau rhag tyfu a'r anghenion cymorth. Ar ben hynny, amlygodd llawer o fusnesau eu dull cymorth dewisol, a mentora oedd yn cynrychioli'r dull dewisol.

**Argymhellion 4:** Dylai darpariaeth cymorth barhaus sicrhau y rhoddir digon o ffocws ar y prif ddiffygion o ran sgiliau, rhwystrau a'r anghenion cymorth a amlygwyd yn yr ymchwil hon – yn bennaf themâu fel dod o hyd i gyllid priodol, marchnata digidol, defnyddio technoleg ddigidol a thechnoleg newydd yn effeithiol, a defnyddio dulliau mentora.

## 7.3 Cyflawni newid cymdeithasol

Mae'r ymchwil yn awgrymu bod gan fusnesau cymdeithasol rôl arbennig o bwysig i'w chwarae mewn ardaloedd mwy difreintiedig, yn ôl pob tebyg, ac mae Cymoedd De Cymru yn gadarnle ar gyfer gweithgarwch busnesau cymdeithasol.

Mae busnesau cymdeithasol yn gyflogwyr da, ac mae'r mwyafrif helaeth ohonynt yn cynnig Cyflog Byw i'w holl staff ac yn cyflogi pobl sydd ymhellach o'r farchnad lafur. Mae cydbwysedd cadarnhaol iawn o ran rhywedd ymhlith arweinwyr y busnesau hyn, er bod cymunedau lleiafrifoedd ethnig a phobl ag anableddau wedi'u tangynrychioli. Ar ben hynny, ychydig iawn o entrepreneuriaid ifanc sy'n arwain y busnesau hyn o gymharu â chyfartaledd y DU.

**Argymhelliad 5:** Mae ehangu arweinyddiaeth i gynnwys mwy o aelodau o gymunedau lleiafrifoedd ethnig, yn ogystal â phobl sy'n byw ag anableddau, yn cynrychioli angen clir yn y sector. Hefyd, mae angen canolbwyntio ar annog aelodau iau i ymuno â thimau arweinyddiaeth, a fyddai'n gwella cynaliadwyedd y sector (ymhlith manteision eraill).

Mae'r data hefyd yn dangos rôl bwysig o sector o ran mynd i'r afael ag effeithiau'r pandemig, gyda mwy o ffocws ar gefnogi cymunedau ac unigolion sydd wedi'u hallgau'n gymdeithasol neu'n ariannol. Ar y cyfan, ymddengys bod busnesau wedi cyfrannu at ystod ehangach o amcanion cymdeithasol eleni, sy'n awgrymu bod y sector wedi ceisio ehangu ei arlwy i fynd i'r afael â'r argyfyngau cymdeithasol ac ariannol a grëwyd gan y pandemig.

Ar ôl dangos gwydnwch sylweddol yn ystod y pandemig COVID-19, disgwylir i fusnesau cymdeithasol barhau i wneud cyfraniad pwysig i fywyd cymdeithasol ac economaidd yng Nghymru dros y blynyddoedd sydd i ddod, ac mae'r arolwg yn dangos hyder uchel ymhlith busnesau dros y 2–3 blynedd nesaf. Mae busnesau wedi gallu canolbwyntio ar eu marchnadoedd craidd, wrth amrywio eu dulliau i wasanaethu eu cwsmeriaid a'u cleientiaid yn sgil y cyfyngiadau a roddwyd arnynt yn ystod y pandemig.

**Chyhoeddwyd gan**
**Fusnes Cymdeithasol Cymru.**

Ariennir Busnes Cymdeithasol Cymru gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop a Llywodraeth Cymru. Fe'i darperir gan Ganolfan Cydweithredol Cymru ac mae'n rhan o wasanaeth Busnes Cymru.

**Ffôn:** 0300 111 5050
**E-bost:** SBWEnquiries@wales.coop
**Twitter:** @SocialBizWales

Mae Canolfan Datblygu a Hyfforddi Cydweithredol Cymru Cyfyngedig (yn masnachu fel Canolfan Cydweithredol Cymru) yn gymdeithas gofrestredig o dan Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014, rhif 24287 R.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn Saesneg. Mae fformatau eraill, megis print bras neu braille, ar gael ar gais.

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg, ac anelwn at ddarparu gwasanaeth o safon gyfartal yn y ddwy iaith.